Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith

# Y 14eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith

Law Com No 421

(Comisiwn y Gyfraith Rhif 421)

# Y 14eg Rhaglen o Ddiwygio’r Gyfraith

Cyflwynwyd i’r Senedd o dan adran 3(2) Deddf Comisiynau’r Gyfraith 1965

Gorchmynwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 4 Mehefin 2025

HC 1256

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

ISBN 978-1-5286-5914-7

E03409058

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Comisiwn y Gyfraith

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygiadau i'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Fraser, Cadeirydd

Yr Athro Penney Lewis

Yr Athro Solène Rowan

Yr Athro Lisa Webley

Yr Athro Alison Young

Cytunwyd ar delerau'r ddogfen hon ar 16 Ebrill 2025, a Chomisiynwyr y Gyfraith ar y pryd oedd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Fraser (Cadeirydd), Yr Athro Nicholas Hopkins, Yr Athro Penney Lewis a'r Athro Alison Young.

Y ddau Brif Swyddog Ar y Cyd ar Gomisiwn y Gyfraith yw Joanna Otterburn a Roshnee Patel.

Lleolir Comisiwn y Gyfraith ar 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London SW1H 9AG.

Mae testun y cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn http://www.lawcom.gov.uk.

# Cynnwys

**PENNOD 1: RHAGARWEINIAD** **6**

Cefndir 6

Ymgynghori 6

Cymru 8

MEINI PRAWF DETHOL PROSIECTAU COMISIWN Y GYFRAITH 9

PROSIECTAU A GADARNHAWYD AR GYFER Y BEDWAREDD RHAGLEN AR DDEG 10

GWAITH DIWYGIO'R GYFRAITH SYDD AR Y GWEILL A PHROSIECTAU PELLACH 11

GWEITHIO GYDA CHOMISIYNAU'R GYFRAITH ERAILL 11

**CHAPTER 2: PROSIECTAU'R 14EG RHAGLEN** **13**

Rhagarweiniad 13

Tenantiaethau amaethyddol 13

Prydlesi masnachol 13

Caniatâd yn y gyfraith droseddol 14

Gweithredoedd 14

Amddiffyniad o wallgofrwydd 15

Halogi corff marw 16

Rheoli stadau tai 17

TIR HEB BERCHENNOG 17

ATEBOLRWYDD CYNNYRCH A THECHNOLEG NEWYDD 18

Penderfyniadau awtomataidd yn y sector cyhoeddus 18

**CHAPTER 3: PROSIECTAU AR Y GWEILL** **20**

Rhagarweiniad 20

ADOLYGIAD GWEINYDDOL 20

AWYRENNAU AWTONOMAIDD 20

CLADDU, AMLOSGI A DULLIAU ANGLADD NEWYDD 21

TENANTIAETHAU BUSNES: yr hawl i adnewyddu 21

ATEBOLRWYDD TRWSIO EGLWYSI A CHOFRESTRU 22

PRYNIANT GORFODOL 22

Dirmyg Llys 22

CWMNïAU CYDWEITHREDOL A CHYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL 23

ASEDAU DIGIDOL A DOGFENNAU MASNACH ELECTRONIG MEWN CYFRAITH RYNGWLADOL BREIFAT 24

GOFAL CYMDEITHASOL PLANT ANABL 25

Tystiolaeth wrth Erlyn Troseddau Rhyw 25

CYMDEITHASAU CYFEILLGAR 26

GOFAL GAN BERTHYNAS 27

Y GYFRAITH LLADDIADAU 27

MODERNEIDDIO'R GYFRAITH EWYLLYSIAU 27

MODERNEIDDIO'R GYFRAITH YMDDIRIEDOLAETHAU 28

GWRTHRYCHAU MEWN CASGLIADAU AMGUEDDFEYDD 28

CYMRODEDDU'R GYFRAITH YMDDIRIEDOLAETH 29

**CHAPTER 4: PROSIECTAU POSIB ERAILL 30**

Rhagarweiniad 30

Cyfraith rhannu data a gwybodaeth 30

RHWYMEDïAU ARIANNOL AR YSGARIAD 30

Prynu Cartref 31

TELERAU ANNHEG MEWN PRYDLES BRESWYL 31

OEDOLION BREGUS MEWN PERYGL 31

**ATODIAD 1: RHESTR YMGYNGOREION 33**

# Y 14eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith

*I'r Gwir Anrhydeddus Shabana Mahmood AS, Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder*

## Pennod 1: Rhagarweiniad

### CEFNDIR

1.1 Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn i'r pwrpas o hyrwyddo diwygiadau i'r gyfraith. Mae eleni felly'n nodi'r 60ain blwyddyn ers sefydlu'r Comisiwn.

1.2 Mae'n statudol ofynnol i Gomisiwn y Gyfraith dderbyn ac ystyried cynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith a pharatoi a chyflwyno i'r Arglwydd Ganghellor, o bryd i'w gilydd, raglenni ar gyfer archwilio gwahanol ganghennau o'r gyfraith gyda golwg ar eu diwygio.[1]

1.3 Gofynnwn am gymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor i'r prosiectau a restrir ym Mhennod 2 y ddogfen hon fel y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg, yn unol ag adrannau 3(1)(b) a 3(2) Deddf 1965. Gosodwyd y Drydedd Rhaglen Ar Ddeg gerbron cyn belled yn ôl â 2017,[2] ac mae cryn fwlch wedi bod cyn gallu cwblhau'r Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg yn derfynol.

### YMGYNGHORI

1.4 Mae'r Comisiwn yn ymgynghori'n eang wrth gynhyrchu rhaglenni diwygio'r gyfraith i sicrhau bod ein gwaith mor berthnasol, diweddar ac wedi'i oleuo gan gymaint o wybodaeth â phosib. Lansiwyd ein hymgynghoriad ar y 14eg Rhaglen ar 24 Mawrth 2021, gan redeg tan 31 Gorffennaf 2021.

1.5 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn pa feysydd o'r gyfraith sydd angen eu diwygio, gan egluro ar sail pa feini prawf y dewiswn brosiectau. Yn ogystal â gofyn y cwestiwn agored hwn, awgrymwyd y gallai fod rhai themâu oedd ar y pryd efallai'n gyffredin i brosiectau posib ar gyfer diwygio'r gyfraith.[3]

1.6 Fe wnaethom hefyd gyhoeddi dogfen fer yn disgrifio rhai meysydd cyfreithiol yr oeddem yn credu a allai elwa o gael eu diwygio. Cafodd y prosiectau posib hyn eu

---

1 Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, a. 3(1)(a) a (b).

2 Y Drydedd Rhaglen Ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith (2017) Com. y Gyfraith Rhif 377, i'w gael yn https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20240605042804/https://lawcom.gov.uk/document/programmes-of-law-reform/.

3 Y themâu y gwnaethom eu cynnwys oedd technoleg newydd, gadael yr Undeb Ewropeaidd, yr amgylchedd, gwydnwch cyfreithiol, a symleiddio.

hadnabod ar ôl trafod yn fewnol yng Nghomisiwn y Gyfraith ac yn allanol gyda rhanddeiliaid a gwahoddwyd ymgyngoreion i wneud sylwadau ar eu haeddiannau. Fe wnaethom awgrymu 19 o feysydd gwaith posib:

(1) Deddf Cymrodeddu 1996 a chymrodeddu o dan y gyfraith ymddiriedolaeth

(2) Penderfyniadau awtomataidd

(3) Prydlesi masnachol

(4) Gwrthdaro rhwng cyfreithiau a thechnoleg newydd

(5) Dirmyg Llys

(6) Cyfraith rhannu data a gwybodaeth

(7) Gweithredoedd ac amrywio contractau

(8) Cyfraith Teulu

(9) Prynu Cartref

(10) Cyfiawnder yn yr oes ddigidol

(11) Cyfraith yng Nghymru

(12) Gwarchodaeth gyfreithiol ar gyfer ein hamgylchedd

(13) Tir heb berchennog

(14) Gwerthiannau rhwng unigolion

(15) Atebolrwydd cynnyrch a thechnoleg newydd

(16) Adolygu Pwerau Apêl yn y Llysoedd Troseddol

(17) Datblygiadau technolegol ac effeithlonrwydd gweithredol yn y Llysoedd Troseddol

(18) Chwilio am, cynhyrchu ac atafaelu deunydd electronig

(19) Llyfr statud y DU

1.7 Roedd nifer fawr o'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad yn gwneud sylwadau ar y prosiectau posib hyn. Mae pump – Prydlesi Masnachol, Gweithredoedd, Tir Heb Berchennog, Atebolrwydd Cynnyrch, Penderfyniadau Awtomataidd yn y Sector Cyhoeddus – wedi eu cynnwys yn y 14eg Rhaglen derfynol. Mae chwech arall – Adolygu'r Ddeddf Cymrodeddu, Tenantiaethau Busnes: yr hawl i adnewyddu (agwedd ar Brydlesi Masnachol), Gwrthdaro rhwng Cyfreithiau a Thechnoleg Newydd, Rhwymedïau Ariannol ar Ysgariad (agwedd ar Gyfraith Teulu), Dirmyg Llys, ac Adolygu Pwerau Apêl yn y Llysoedd Troseddol – wedi eu cyfeirio at Gomisiwn y Gyfraith drwy Gyfeiriadau Gweinidogol ad hoc dros y cyfnod rhwng ein hymgynghoriad a chyhoeddi'r Rhaglen hon.

1.8 Defnyddiwyd ymdrechion sylweddol i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar y 14eg Rhaglen. Dosbarthwyd y manylion i lawer o randdeiliaid, gan gynnwys cymdeithasau proffesiynol, grwpiau academaidd cyfreithiol, cyrff sector cyhoeddus, sefydliadau aelodaeth ac ymbarél yn y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, ac i unigolion. Rhoddodd y Comisiwn gyhoeddusrwydd ehangach i'r manylion drwy erthyglau yn y cyfryngau cyfreithiol a thrydydd sector a hefyd drwy ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

1.9 Dros y cyfnod ymgynghori, fe wnaeth y Cadeirydd, Comisiynwyr, Prif Weithredwr a staff gyfarfod ag ystod eang o unigolion a grwpiau oedd eisiau gwneud sylwadau ar y prosiectau a awgrymwyd neu gynnig syniadau eu hunain. Fe wnaethom hefyd gyfarfod â swyddogion ar draws Whitehall i fesur diddordeb yn y prosiectau a awgrymwyd.

1.10 I gyd, derbyniwyd tua 500 o gyflwyniadau. Awgrymwyd bron i 200 o wahanol bynciau gyda rhai'n cael eu cefnogi gan ddim ond un neu ddau o ymgyngoreion ac eraill yn cael eu cefnogi gan nifer o bobl.

1.11 Yn Chwefror 2023 gwnaed y penderfyniad i ddal yn ôl ar ddatblygu'r Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg. Roedd hyn oherwydd ffocws y Llywodraeth ar ei blaenoriaethau dros weddill y cyfnod Seneddol, ynghyd â'r ffaith bod Comisiwn y Gyfraith yn brysur iawn eisoes gyda phrosiectau eraill. Ar ôl yr Etholiad Cyffredinol yng Ngorffennaf 2024, ail-afaelwyd yn y gwaith o gwblhau'r Rhaglen hon.

1.12 Hoffai Comisiwn y Gyfraith ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad ar y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am amser ac ymdrech ein rhanddeiliaid yn hybu'r achos dros ddiwygio'r gyfraith. Roedden ni'n hapus iawn ag ansawdd y cyflwyniadau ac ehangder y syniadau a gynigiwyd gan ymgyngoreion a chredwn fod hyn wedi gadael i ni ddatblygu Rhaglen amrywiol, berthnasol a blaengar o ddiwygio'r gyfraith.

## CYMRU

1.13 Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys awdurdodaeth Cymru a Lloegr. Mae diwygio'r gyfraith yng Nghymru wedi bod yn rhan hanfodol o'n gwaith erioed ond mae ei natur wedi esblygu wrth i'r broses ddatganoli yn y DU aeddfedu. Arhoswn yn ymrwymedig i gwrdd ag anghenion diwygio'r gyfraith Cymru a Lloegr yn y cyd-destun cyfansoddiadol esblygol hwn.

1.14 Diwygiwyd Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 gan Ddeddf Cymru 2014 er mwyn ystyried datganoli yng Nghymru, fel y gallai Gweinidogion Cymru gyfeirio prosiectau diwygio'r gyfraith yn uniongyrchol at y Comisiwn am y tro cyntaf. Mae ein gwaith i Weinidogion Cymru bellach yn cael ei lywodraethu gan brotocol, wedi'i lofnodi yng Nghaerdydd gan Syr David (bellach Arglwydd) Lloyd Jones, ein Cadeirydd bryd hynny, a Phrif Weinidog Cymru, ac a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngorffennaf 2015.[4]

1.15 Mae perthynas Comisiwn y Gyfraith â Llywodraeth Cymru wedi hen sefydlu bellach. Gweithredwn drwy bolisi iaith Gymraeg gan gyhoeddi adroddiadau a phapurau

[4] Protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith (2015), Gen-LD10290.

ymgynghorol dwyieithog priodol yn rheolaidd. Mae gan un o'n Comisiynwyr, Yr Athro Alison Young, gyfrifoldeb arbennig am y gyfraith yng Nghymru. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal Pwyllgor Cynghori Cymru'n rheolaidd a'i aelodau yw'r prif leisiau ar y gyfraith yng Nghymru, gan ddod o feysydd ymarfer y gyfraith, y farnwriaeth, academia a'r trydydd sector. Mae eu trafodion busnes hefyd yn cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg. Rydyn ni'n ddiolchgar iddynt am roi eu hamser a'u profiad i helpu i gefnogi ein gwaith yng Nghymru.

1.16 Ar hyn o bryd mae Comisiwn y Gyfraith yn rhan o brosiect sydd ar y gweill ar y Gyfraith Amaethyddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai'n well ganddi ystyried pa waith yng Nghymru allai ddilyn ymlaen o'r prosiect hwnnw, ar wahân i'r Rhaglen hon. Bydd y gwaith a wneir yn y dyfodol ar ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru felly'n cael ei gyfeirio atom gan Lywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau o dan adran 3(1)(ea) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965,[5] yn hytrach na fel rhan o'r 14eg Rhaglen. Mae'r Comisiwn yn gwbl ymrwymedig i ddechrau ar brosiect Cymru'n unig ar ôl cwblhau ein gwaith ar y Gyfraith Amaethyddol yng Nghymru, i'w wneud ochr yn ochr â'r brif Raglen.

## MEINI PRAWF DETHOL PROSIECTAU COMISIWN Y GYFRAITH

1.17 Dyma'r bedwaredd Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith i gael ei datblygu o dan delerau'r Protocol presennol rhwng yr Arglwydd Ganghellor a Chomisiwn y Gyfraith, a dderbyniodd sêl bendith statudol gan Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 2009,[6] a'r ail o dan y Protocol cyfatebol yng Nghymru.[7] Mae'r ddau brotocol yn egluro sut y mae Llywodraeth a Chomisiwn y Gyfraith yn gweithio gyda'i gilydd gan sefydlu gweithdrefn ar gyfer creu Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith.

1.18 Wrth ystyried a ddylid cynnwys prosiect yn y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg, asesodd Gomisiwn y Gyfraith bob un o'r cynigion yn erbyn y meini prawf dethol canlynol:

(1) i ba raddau y mae'r gyfraith yn y maes hwnnw'n anfoddhaol;

(2) y manteision posib a ddeuai o ddiwygio;

(3) ai Comisiwn y Gyfraith annibynnol ac anwleidyddol yw'r corff mwyaf addas i adolygu'r gyfraith yn y maes hwnnw;

(4) a oes gan y Comisiynwyr a staff brofiad perthnasol neu fynediad at brofiad perthnasol;

(5) a oes cyllid prosiect-benodol ar gael (lle bo'n berthnasol);

(6) faint o gefnogaeth adrannol sydd;

---

5 Wedi'i fewnosod gan Ddeddf Cymru 2014, a. 25(2), 29(2)(c).

6 Protocol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (ar ran y Llywodraeth) a Chomisiwn y Gyfraith (2010) Com. y Gyfraith Rhif 321, HC 499.

7 Protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith (2015), Gen-LD10290.

(7) pa flaenoriaeth ddylid ei rhoi i'r prosiect o'i gymharu â phrosiectau eraill sydd ar y gweill neu rai posib;

(8) a oes dimensiwn Albanaidd neu Ogledd Iwerddon i'r prosiect a fyddai'n gofyn cynnwys Comisiynau'r Gyfraith yn yr Alban a / neu Ogledd Iwerddon; a

(9) a oes dimensiwn Cymreig a fyddai'n gofyn cynnwys Llywodraeth Cymru.

## PROSIECTAU A GADARNHAWYD AR GYFER Y BEDWAREDD RHAGLEN AR DDEG

1.19 Ar ôl cymhwyso'r meini prawf uchod, mae'r Comisiynwyr wedi dethol y deg prosiect a ganlyn ar gyfer y 14eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith.

| Enw'r prosiect | Cyfrifoldeb polisi |
|---|---|
| Tenantiaethau amaethyddol | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| Prydlesi masnachol | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| Caniatâd yn y gyfraith droseddol | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Gweithredoedd | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Amddiffyniad o wallgofrwydd | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Halogi corff marw | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Rheoli stadau tai | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| Atebolrwydd cynnyrch | Yr Adran Busnes a Masnach |
| Penderfyniadau awtomataidd yn y sector cyhoeddus | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Tir heb berchennog | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |

1.20 Eglurir pob un o'r prosiectau hyn yn fwy manwl ym Mhennod 2.

1.21 Mae Comisiwn y Gyfraith yn falch o fod wedi penderfynu ar ystod mor eang o brosiectau a allai gael gymaint o effaith a chynnig manteision sylweddol i Gymru a Lloegr. Mae'r prosiectau hyn yn gwbl addas i Gomisiwn y Gyfraith yn cyflawni ei

swyddogaeth statudol o sicrhau cyfraith deg, fodern, syml a chost-effeithiol. Bydd y prosiectau'n cynorthwyo'r Comisiwn i barhau i ddarparu diwygiadau sy'n gwneud gwir wahaniaeth i bobl Cymru a Lloegr. Fel y mae ymchwil economaidd annibynnol wedi ei adnabod, mae ein gwaith o gwrdd â'n dyletswydd statudol yn creu budd economaidd sylweddol (manteision effeithlonrwydd er enghraifft) ac yn cael ystod o effeithiau positif eraill fel hyrwyddo cyfiawnder, rheol y gyfraith, a thwf wedi'i greu gan dechnoleg.[8]

1.22 Bydd y Rhaglen hon yn golygu corff helaeth o waith i Gomisiwn y Gyfraith dros y cyfnod i ddod. Er hynny, mae'r Comisiwn hefyd yn disgwyl derbyn prosiectau pellach a gyfeiriwyd gan Weinidogion o dan adran 3(1) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 dros gyfnod y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg wrth i flaenoriaethau newydd ar gyfer diwygio'r gyfraith godi. Bydd Comisiwn y Gyfraith hefyd yn parhau i weithio ar yr 17 gwahanol brosiect sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

## GWAITH DIWYGIO'R GYFRAITH SYDD AR Y GWEILL A PHROSIECTAU PELLACH

1.23 Nid yw pob prosiect sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglen diwygio'r gyfraith yn cael ei gwblhau dros gyfnod y rhaglen honno. Ym Mhennod 3 rhoddwn fanylion prosiectau o'r Drydedd Rhaglen Ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith sydd naill ai'n cael eu cyflawni'n barod gan y Comisiwn, a fydd yn cael eu cwblhau ochr yn ochr â'r gwaith ar y 14eg Rhaglen, neu sy'n parhau i fod yn brosiectau pwysig i'r Comisiwn weithio arnynt yn y dyfodol.[9]

1.24 Disgrifiwn hefyd ym Mhennod 3 fanylion prosiectau sydd ar y gweill a dderbyniodd y Comisiwn fel Cyfeiriadau Gweinidogol, gan gynnwys nifer – fel Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl, Pryniant Gorfodol, a Chwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol – a awgrymwyd yn wreiddiol gan ymgyngoreion ar gyfer y 14eg Rhaglen. Hefyd yn y bennod honno, trafodwn ein prosiect ar y gyfraith lladdiadau, a dderbyniwyd fel Cyfeiriad Gweinidogol, ac a fydd yn cynnwys ystyried rhai materion ar wahân a awgrymwyd i ni gan ymgyngoreion.

1.25 Ym Mhennod 4, crynhown nifer o brosiectau a ystyriwyd gennym ar gyfer y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith ond nad ydyn ni wedi gallu eu cynnwys ynddi. Efallai y byddwn yn gallu derbyn rhai o'r prosiectau hyn fel Cyfeiriadau Gweinidogol yn ystod y Rhaglen hon, neu efallai y byddwn yn ystyried eu cynnwys mewn rhaglen diwygio'r gyfraith yn y dyfodol.

## GWEITHIO GYDA CHOMISIYNAU'R GYFRAITH ERAILL

1.26 Mae rôl Comisiwn y Gyfraith yn berthnasol i gyfraith Cymru a Lloegr ond nid cyfraith yr Alban na chyfraith Gogledd Iwerddon.

---

8 Adroddiad Gwerth Diwygio'r Gyfraith 2019 a Diweddariad 2024, ar gael yn https://lawcom.gov.uk/corporate-document/the-value-of-law-reform/ am y naill, ac yn https://lawcom.gov.uk/corporate-document/value-of-law-reform-update/ am y llall.

9 Y Drydedd Rhaglen Ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith (2017) Com. y Gyfraith Rhif 377, ar gael yn https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20240605042804/https://lawcom.gov.uk/document/programmes-of-law-reform/.

1.27 Mae gan y Comisiwn berthynas agos â Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban a byddwn yn trafod gyda nhw beth sut orau i sicrhau, lle bo'n bosib, bod y sefyllfa yn yr Alban yn cael ei hadlewyrchu mewn unrhyw gynigion diwygio'r gyfraith y gallai'r Senedd benderfynu eu hymestyn i'r Alban.

1.28 Ar hyn o bryd nid yw Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon yn weithredol ond byddwn yn gweithio gyda'r weinyddiaeth yno fel y bo'n briodol.

# Chapter 2: Prosiectau'r 14eg Rhaglen

## RHAGARWEINIAD

2.1 Yn y bennod hon, cyflwynwyd y prosiectau newydd sy'n rhan o'n Pedwaredd Rhaglen Ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith. Diffiniwyd rhai o'r prosiectau hyn yn barod ond bydd angen gwneud gwaith cwmpasu cyn gallu cadarnhau paramedrau rhai eraill.

## TENANTIAETHAU AMAETHYDDOL

2.2 Mae cyfran helaeth o'r tir yng Nghymru a Lloegr yn dir amaethyddol, llawer ohono ar denantiaeth. O dan y gyfraith bresennol, mae dau fath o denantiaeth amaethyddol:

(1) tenantiaethau cyn 1995 a lywodraethir gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ac sydd fel arfer yn rhoi sicrwydd tenantiaeth gydol oes a hefyd (yn aml) hawliau olynu; a

(2) tenantiaethau ôl-1995 ("Tenantiaethau Busnes Fferm") a lywodraethir gan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, sydd heb gyfnod statudol penodol, hawliau olynu na rheolaeth rhent.

2.3 Clywsom nad yw'r trefniadau hyn efallai'n cydbwyso buddiannau'r perchennog tir a'r tenant yn gywir a bod y diffyg sicrwydd tenantiaeth, a natur tymor byr llawer o'r tenantiaethau'n aml, yn rhwystr i fuddsoddi ac i hyfywedd rhai busnesau fferm ar denantiaeth. Clywsom hefyd fod y gyfraith bresennol efallai'n atal ffermwyr tenant rhag arallgyfeirio ac addasu eu busnesau a gallu elwa o gyfleoedd newydd. Gallai'r gyfraith fel y saif ar hyn o bryd felly rwystro twf economaidd a chyfle i ffermwyr tenant.

2.4 Bydd y prosiect hwn yn ystyried a yw'r gyfraith bresennol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi digon o sicrwydd i ffermwyr tenant er mwyn annog buddsoddi a rhedeg busnes fferm hyfyw a chyfle i bobl newydd achub ar gyfle i ffermio, a buddiannau a hyder landlordiaid i osod eu tir. Bydd y prosiect hwn hefyd yn ystyried a yw'r gyfraith yn rhwystro ffermwyr tenant rhag arallgyfeirio eu busnesau, gan gynnwys ffermio'n fwy cynaliadwy; a yw'r gyfraith yn cefnogi dull cydweithredol rhwng landlordiaid a thenantiaid; ac a oes unrhyw faterion technegol sy'n achosi problemau ar lefel ymarferol. Mae'n hen bryd i ni ystyried diwygio'r gyfraith yn y maes pwysig hwn yn fanwl.

## PRYDLESI MASNACHOL

2.5 Mae ein prosiect presennol, Tenantiaethau Busnes: Hawl i Adnewyddu, yn edrych ar un agwedd ar gyfraith prydlesi masnachol, ond mae amryw o faterion eraill yn y maes prydlesi masnachol sydd angen eu hadolygu. Bydd y prosiect hwn yn cynnwys dau is-brosiect.

2.6 Bydd yr is-brosiect cyntaf yn canolbwyntio ar drafodiadau prydlesi masnachol a chlywsom fod y gyfraith yn creu rhwystrau i fusnesau, atal trafodiadau sy'n fasnachol gadarn, ac yn creu biwrocratiaeth ddiangen. Byddwn yn ystyried diwygio dwy agwedd

ar y gyfraith y clywsom sy'n achosi problemau sylweddol ar lefel ymarferol: (1) problemau gyda Deddf Landlord a Thenant (Cyfamodau) 1995 a (2) hawliau cynnig cyntaf o dan Ddeddf Landlord a Thenant 1987 (cyn belled ag y mae'r gyfraith yn berthnasol i eiddo masnachol).

2.7 Bydd yr ail is-brosiect yn brosiect cwmpasu ac yn canolbwyntio ar y gyfraith yn ymwneud â chynnal a chadw, trwsio ac uwchraddio adeiladau masnachol ar brydles. Y pryder yw bod y gyfraith yn y maes hwn yn achosi dryswch ac annhegwch a heb gadw ar y blaen i flaenoriaethau modern (fel bod angen gwneud adeiladau'n fwy amgylcheddol gynaliadwy neu adfywio'r stryd fawr). Fel rhan o'r gwaith cwmpasu hwn, byddwn yn ystyried y gyfraith yn ymwneud â dadfeilio, taliadau gwasanaeth, a sut y mae fframweithiau amgylcheddol a'r gyfraith ar brydlesi masnachol yn rhyngweithio. Bydd y gwaith cwmpasu'n ein cynorthwyo i ddeall y problemau a phrofi pa rai y gallai fod ateb diwygio'r gyfraith iddynt.

## CANIATÂD YN Y GYFRAITH DROSEDDOL

2.8 Mae diffyg caniatâd yn darparu llawer iawn o'r grym cyfiawnhad ar gyfer troseddau yn erbyn y person a llawer o droseddau rhywiol. Er i'r farnwriaeth ystyried y gyfraith yn helaeth ac er y diwygiadau deddfwriaeth sylweddol iddi dros y 40 mlynedd diwethaf, mae'n parhau i fod yn anwadal, aneglur ac annisgwyl. Mae'r llysoedd, er enghraifft, o wynebu patrymau ffeithiau anghyffredin, wedi cael trafferth cynnig ateb cyson i gwestiynau pwysig a chanolog am effaith twyll ar ganiatâd. Mae agweddau cymdeithas hefyd wedi parhau i esblygu er mai pur anaml y maen nhw'n gytûn, fel y gwelsom gyda'r gwahanol ffyrdd o ddefnyddio caniatâd fel amddiffyniad gan rai rhanddeiliaid yng nghyd-destun addasiadau corfforol ar y naill law; a "rhyw brwnt" ar y llaw arall.

2.9 Yn 1994 a 1995, cyhoeddodd Gomisiwn y Gyfraith ddau bapur ymgynghori ar ganiatâd a throseddau yn erbyn y person.[10] Penderfynwyd gohirio'r gwaith hwn oherwydd diffyg consenswS a sensitifrwydd y materion dan sylw.[11] Mae'r amser bellach yn iawn i ni adolygu'r gyfraith ganiatâd yn drylwyr. Byddai hyn yn gyfle i roi caniatâd ar sylfeini cysyniadol sicrach a thrwy hynny ddatrys rhai o'r anghysondebau presennol, er mwyn cynnig atebion mwy diamheuol a moderneiddio'r gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr.

## GWEITHREDOEDD

2.10 Mae'r gyfraith weithredoedd bresennol wedi dyddio, yn rhannol oherwydd datblygiadau technolegol. Er enghraifft, nid yw'n glir a yw'r gyfraith bresennol yn cefnogi creu gweithredoedd sy'n llwyr neu'n rhannol wedi eu diffinio gan gôd. Mae hefyd angen ystyried haeddiannau a goblygiadau *Mercury Tax Group Ltd) v Comisiynwyr Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi*,[12] pan gyfeiriodd Mr Ustus Underhill (fel yr oedd bryd hynny) at fod angen i ddogfen fod yn "endid ffisegol ar wahân (p'un ai'n

---

10 Caniatâd a Throseddau Yn Erbyn y Person (1994) Papur Ymgynghorol Comisiwn y Gyfraith Rhif 134; Caniatâd mewn Cyfraith Droseddol (1995) Papur Ymgynghorol Comisiwn y Gyfraith Rhif 139.

11 Yr Wythfed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (2001) Com. y Gyfraith Rhif 274, 44.

12 *R (Mercury Tax Group Ltd) v Comisiynwyr Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi* [2008] EWHC 2721 (Gweinyddol), [2009] STC 743.

un fersiwn neu sawl copi o'r ddogfen) pan fydd yn cael ei llofnodi". Mae rhai rhanddeiliaid yn dadlau y dylid diwygio, disodli neu ddileu rhai gofynion gweithredoedd, fel tystio, ardystio a darparu.

2.11 Bydd y prosiect hwn yn adolygu'r gyfraith gweithredoedd, gan gynnwys ystyried:

(1) materion cyffredinol o ran pa mor effeithiol yw gweithredoedd, ac ydy'r cysyniad yn parhau i fod yn addas i bwrpas;

(2) a ddylid diwygio'r gofynion presennol yn ymwneud â gweithredoedd, gan gynnwys tystio, ardystio a darparu; a

(3) a oes angen diwygio'r gyfraith gweithredoedd i sicrhau y gellir hwyluso cydymffurfio â gofynion gweithredoedd drwy gontractau clyfar.

2.12 Bydd y prosiect hwn yn edrych ar bethau'n holistig ac yn delio â gweithredoedd papur ac electronig. Bydd hefyd yn sicrhau na chollir unrhyw warchodaeth angenrheidiol ar gyfer unigolion.

## AMDDIFFYNIAD O WALLGOFRWYDD

2.13 Bydd y prosiect hwn yn ystyried pryd na ddylai person fod yn droseddol atebol oherwydd cyflwr meddwl pan wnaethant gyflawni trosedd honedig.

2.14 Mae Comisiwn y Gyfraith wedi edrych ar hyn o'r blaen. Ar 23 Gorffennaf 2013 fe wnaethom gyhoeddi Papur Trafod gyda'n cynigion dros dro i ddiwygio'r amddiffyniad o wallgofrwydd a'r amddiffyniad o anwirfoddolrwydd.[13] Fodd bynnag ni pharhawyd â'r gwaith a phenderfynwyd blaenoriaethu'r gwaith rhesymegol flaenllaw ar anghymhwyster i bledio.

2.15 Mae'r rheolau presennol ar yr amddiffyniad o wallgofrwydd (a elwir hefyd yn "anwirfoddolrwydd gwallgof") yn dyddio o 1843. Cawsant eu beirniadu'n eang am nifer o resymau:

(1) nid yw'n glir a yw'r amddiffyniad o wallgofrwydd ar gael bob tro;

(2) mae'r gyfraith yn llusgo ar ôl dealltwriaeth seiciatrig sy'n rhannol egluro pam, yn ymarferol, na ddefnyddir yr amddiffyniad yn aml, ac nid yw'r gymuned feddygol yn cymhwyso'r prawf cyfreithiol cywir;

(3) mae'r label "gwallgof" wedi dyddio fel disgrifiad o bobl gyda salwch meddwl ac yn gwbl anghywir i ddisgrifio pobl ag anableddau dysgu neu anawsterau dysgu, neu epilepsi; a

---

13 Mae diffiniad adnabyddus o anwirfoddolrwydd yn ei gymryd i olygu "symudiad anwirfoddol o gorff neu aelodau corff person [ar ôl i] reolaeth wirfoddol chwalu'n llwyr": *Watmore v Jenkins* [1962] 2 QB 572, 587, gan Winn J. (a ddyfynnir yn *Insanity and Automatism: A Scoping Paper* (Gorffennaf 2012)).

(4) mae'r gyfraith achosion ar anwirfoddolrwydd gwallgof a di-wallgof[14] yn aneglur gan roi canlyniadau a allai fod yn groes i synnwyr cyffredin.

2.16 Mae'r data empirig yn awgrymu mai ond mewn nifer fach o achosion y codir yr amddiffyniad o wallgofrwydd yn llwyddiannus. Fe wnaethom gyhoeddi papur cwmpasu yng Ngorffennaf 2012 gan ofyn cwestiynau i weld ydy'r gyfraith bresennol yn achosi problemau o'i hymarfer ac, os felly, pa broblemau. Cafodd y Papur Trafod ei oleuo gan ymatebion i'r papur hwnnw.

## HALOGI CORFF MARW

2.17 Ar hyn o bryd nid oes trosedd benodol o halogi corff marw yng Nghymru a Lloegr. Trafodir y sefyllfa mewn erthygl gan Dr Imogen Jones:

> Mae'r gyfraith a allai fod yn gymwys i amgylchiadau o'r fath yn ymwneud yn bennaf â throseddau cyfraith gyffredin hen ffasiwn ac amwys, wedi'i hategu gan ddarpariaethau statudol yn delio ag amgylchiadau cul iawn (fel rhoi organau, ymchwil feddygol ac awdurdodaeth grwnerol).[15]

2.18 Fel y saif, nid yw'r gyfraith droseddol yn delio'n ddigonol â halogi corff marw. Mewn rhai achosion, nid yw'r troseddau presennol (cyfraith gyffredin na statud) yn cynnwys rhai mathau o ymddygiad; gydag eraill, ni ddefnyddir y troseddau i erlyn yr ymddygiad yn ymarferol. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â throseddau rhywiol, fel camddefnyddio lluniau rhywiol, halogi, a hefyd droseddau di-rywiol eraill, gan gynnwys os bydd lladdwr yn gwrthod dweud ble y mae corff eu dioddefwr.

2.19 Mae bylchau posib yn y gyfraith droseddol sydd wedi eu hadnabod hyd yma, ac y bydd y prosiect hwn yn delio â nhw, yn cynnwys:

(1) datgymalu, halogi neu anffurfio corff marw;

(2) ymyrryd â chorff marw heb olygu halogi neu anffurfio, er enghraifft gosod, tynnu llun neu ysgrifennu rhywbeth ar y corff marw;

(3) methu â thrin corff marw gydag urddas neu barch, gan gynnwys tynnu llun, creu neu rannu lluniau, heb fod yn rhywiol neu anweddus, o berson marw;

(4) camddefnyddio lluniau rhywiol o berson marw sydd ddim yn dod o dan y drosedd o fod ym meddiant pornograffi eithafol;[16] a

---

14 Fel y nodwn yn *Insanity and Automatism: A Scoping Paper* (Gorffennaf 2012): "English case law has drawn a distinction between "insane automatism" (which it classifies as "insanity") and "sane automatism". Mae'n gwneud hyn drwy wahaniaethu rhwng a oedd diffyg rheolaeth y sawl a gyhuddir oherwydd "ffactor fewnol" (h.y. corff y person wedi camweithio mewn rhyw ffordd) neu "ffactor allanol" (fel ergyd i'r pen).

15 I Jones, 'A grave offence: corpse desecration and the criminal law' (2017) 37(4) *Legal Studies* 599, 602. Mae Dr Jones yn academydd sydd wedi ysgrifennu ar y pwnc hwn ac a gyflwynodd i'r ymgynghoriad ar y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg.

16 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, a. 63.

(5) ymddygiad peri-mortem a fyddai’n drosedd pe bai’r dioddefwr yn fyw pan ddigwyddodd ond nid yw’r dystiolaeth yn sefydlu a oedd y dioddefwr yn fyw neu’n farw pan ddigwyddodd.

## RHEOLI STADAU TAI

2.20 Daeth yn gyffredin i stadau tai gael eu codi lle y mae’r datblygwr, neu gwmni rheoli cysylltiedig, yn cadw eu gafael ar ffyrdd a rhannau cyffredin o’r ystâd. Gallai’r stadau hyn gynnwys cymysgedd o dai rhydd-ddaliad a les-ddaliad ynghyd â chymysgedd o dai preswyl ac adeiladau busnes (fel siopau). Mae’r tai yna’n cael eu gwerthu ar yr amod bod perchnogion y tai’n talu tâl gwasanaeth i’r datblygwr neu gwmni reoli am waith cynnal a chadw ac weithiau am ddarparu gwasanaethau eraill.

2.21 Cawsom wybod bod y trefniadau rheoli hyn weithiau’n cael eu dylunio i sicrhau’r elw mwyaf i’r cwmni rheoli a bod perchnogion yn gorfod talu gormod. O dan y gyfraith bresennol, mae gan breswylwyr stadau tai rai pwerau i herio ffioedd rhy uchel ond dim hawl i gymryd drosodd y gwaith o reoli eu stadau.

2.22 Bydd y prosiect hwn yn ystyried sut i roi mwy o reolaeth i breswylwyr dros reoli eu stadau tai. Bydd y prosiect yn edrych ar sut i addasu’r gyfundrefn hawl i reoli ("RTM") sydd ar gael i les-ddeiliaid blociau o fflat i stadau tai hefyd, ac unrhyw atebion ychwanegol neu eraill i broblemau rheoli stadau. Gallai fod angen y rhain oherwydd y gwahaniaeth rhwng blociau o fflatiau a stadau tai, a rhwng y gwahanol strwythurau cyfreithiol (les-ddaliad a rhydd-ddaliad). Bwriadwn adolygu sut y byddai unrhyw gynllun newydd ar gyfer rheoli stadau tai’n rhyngweithio â’r gyfraith bresennol ar y gyfundrefn RTM ar gyfer fflatiau les-ddaliad, a gydag argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ein hadroddiad RTM 2020.

## TIR HEB BERCHENNOG

2.23 Mae tir heb berchennog – er enghraifft tir wedi’i berchnogi gan gwmni wedi ei ddiddymu – yn pasio i’r Goron. Gan ddibynnu ar ble y mae o, gall basio i Ddugiaeth Cernyw neu Gaerlŷr. Mae tir arall yn trosglwyddo i Gyfreithiwr y Trysorlys fel bona vacantia (hen hawl y Goron i “nwyddau di-berchennog”). Mae gan Gyfreithiwr y Trysorlys bŵer ymwrthodiad. Os ymwrthodir rhydd-ddaliad, mae’r tir yn troi’n ôl (“diarddel”) i Stâd y Goron gan dybio mai’r Goron yw perchennog tir yng Nghymru a Lloegr yn y pen draw. Nid yw’r Goron yn atebol am y tir hwn oni bai ei bod yn ymarfer rheolaeth drosto neu waith rheoli arno ond mae ansicrwydd ynghylch beth yn union yw hyn ac mae’n atal y Goron rhag ymgysylltu â thir di-berchennog.

2.24 Er nad yw lleiniau tir sy’n diarddel yn achosi problemau fel arfer, gall tir arall fod â photensial datblygu sylweddol neu gyflwyno peryglon amgylcheddol neu ddiogelwch sylweddol. Cawsom wybod gan randdeiliaid am flociau o fflatiau, safleoedd diwydiannol, mwyngloddiau, canolfannau ailgylchu, cronfeydd dŵr a thirnodau dinas peryglus a ddaeth yn ddi-berchennog.

2.25 Mae’r gyfraith bresennol yn hynafol a dryslyd. Gall fod yn rhwystr i droi tir yn ôl i fod yn broffidiol, cywiro problemau amgylcheddol a diogelwch, a datblygu tir. Gall olygu nad yw’r Goron yn gwneud rhai pethau yng nghyswllt safleoedd. Er enghraifft, clywsom fod yr ansicrwydd yma’n atal y Goron rhag rhoi caniatâd i gorff cyhoeddus gael archwilio’r eiddo neu ffensio safle peryglus. Bydd y prosiect hwn yn adolygu’r gyfraith o bona

vacantia a diarddel, o gofio bod y ddau gysyniad yn bur hen. Bydd yn adolygu tarian atebolrwydd y Goron am dir di-berchennog. Byddwn yn ystyried a ddylai rhai mathau o dir di-berchennog basio i gorff heblaw'r Goron ac yn adolygu pwerau rhai partïon i sicrhau gorchymyn meddiant o dir. Bydd y prosiect hefyd yn edrych ar hawliau les-ddeiliaid lle y mae teitl y landlord yn diarddel. Ynghyd â'r diwygiadau hyn, bydd y prosiect yn ceisio rhoi eglurder i'r gyfraith gan edrych ar oroesiad buddiannau deilliannol sy'n effeithio ar dir di-berchennog ac effaith bona vacantia a diarddel ar y system cofrestru tir.

## ATEBOLRWYDD CYNNYRCH A THECHNOLEG NEWYDD

2.26 Nid yw cyfundrefn atebolrwydd cynnyrch y DU, o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987 ("CPA"), wedi cadw ar y blaen i ddatblygiad carlamus technoleg newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial ("AI") a'r defnydd cynyddol o gynhyrchion digidol. Mae technoleg newydd yn cyflwyno ystod o heriau cyfreithiol i'r gyfundrefn atebolrwydd cynnyrch bresennol, yn enwedig o ran diffiniadau'r CPA o "gynnyrch", "diffyg" a beth yn union yw "difrod" i bwrpas y CPA. O ystyried bod y CPA yn warchodaeth bwysig i ddefnyddwyr, mae'n hanfodol y gellir ei chymhwyso yn wyneb datblygiadau technolegol.

2.27 Mae awdurdodaethau rhyngwladol eraill eisoes yn gweithio ar ddiwygio'r gyfraith yn y maes hwn. Er enghraifft, mae'r CPA yn seiliedig ar gyfarwyddeb yr UE a ddiweddarwyd gan yr Undeb yn 2024. Roedden ni hefyd yn argymell prosiect ar hyn yn ein papur ymgynghori cyntaf ar Awyrennau Awtonomaidd a gyhoeddwyd yn Chwefror 2024. O ystyried datblygiadau technolegol diweddaraf, mae'n hen bryd i'r prosiect hwn ddigwydd.

2.28 Bydd y materion y bydd y prosiect hwn yn eu trafod yn cynnwys:

(1) Y cwestiwn o ddiweddaru'r diffiniad o "gynnyrch" yn y CPA yn benodol i gynnwys meddalwedd, p'un ai a gyflenwir drwy gyfrwng gweledig neu anweledig.

(2) A ddylid ymestyn y cyfnod atebolrwydd "terfynol" o 10 mlynedd, o ystyried y gellir uwchraddio rhai cynhyrchion sy'n deillio o dechnoleg newydd yn fynychol.

(3) A ddylid diwygio'r amddiffyniad "technoleg ddiweddaraf" i ystyried technolegau newydd y gellir eu diweddaru'n fynychol.

(4) Y trafferthion i hawlyddion gyda chyflwyno hawliad yng nghyswllt technoleg hynod dechnegol ac "afloyw", fel AI.

(5) A ddylid diwygio'r diffiniadau o "ddiffyg" a "difrod" yn y CPA i ystyried effaith technolegau newydd.

## PENDERFYNIADAU AWTOMATAIDD YN Y SECTOR CYHOEDDUS

2.29 Mae penderfyniadau awtomataidd ("ADM") yn cynnwys rhai a wneir gan neu ar gyfer cyrff cyhoeddus yn defnyddio prosesau algorithmig a deallusrwydd artiffisial. Mae'r prosesau hyn yn golygu gwahanol lefelau o fewnbwn a goruchwyliaeth ffisegol. Nid oes fframwaith cyfreithiol penodol ar ddefnyddio ADM gan y wladwriaeth i wneud

penderfyniadau sy'n effeithio ar y cyhoedd: datblygodd gyfraith gyhoeddus i sicrhau atebolrwydd personau, nid systemau awtomataidd. Mae cwestiynau cyfreithiol sylfaenol – fel ydy hi'n gyfreithlon defnyddio system ADM i gwblhau swyddogaeth statudol neilltuol – yn dal i fod heb eu hateb. Ar yr un pryd, nid yw adolygiad barnwrol yn addas i graffu penderfyniadau a wnaed yn defnyddio ADM.

2.30 Gellir disgrifio'r broses o greu fframwaith cyfreithiol cydlynus i hwyluso ADM da a chyfreithlon fel yr her fwyaf sylweddol i gyfraith gyhoeddus. Yn anochel bydd ADM yn dod yn fwyfwy cyffredin a bydd angen i egwyddorion cyfreithiol yr 20fed ganrif addasu i ddatblygiadau technolegol yr 21ain ganrif. Mae risg gyfreithiol a niwed posib i'r cyhoedd ac i hyder y cyhoedd mewn llywodraeth pan fydd ADM yn mynd o'i le. Bydd hyn yn tanseilio manteision posib ADM.

2.31 Bydd y prosiect hwn yn ceisio gwneud argymhellion am y fframwaith cyfreithiol sydd ei angen i hyrwyddo ADM da, cyfreithlon. Gallai argymell newid deddfwriaeth pe bai angen, ynghyd â chanolbwyntio ar ba bryd y gallai cyfraith gyffredin neu ganllawiau llywodraeth reoleiddio systemau ADM. Bydd yn dechrau gyda cham cwmpasu ac yn ystyried sut y mae cyfraith gyhoeddus yn hwyluso neu'n creu rhwystrau i ddefnyddio ADM, gan adnabod systemau ADM sylweddol ar draws Llywodraeth, a'r rhwystrau cyfreithiol iddynt. Bydd yna'n symud ymlaen at y cam nesaf o edrych ar atebion cyffredinol ynghyd â gwaith wedi'i dargedu gydag adrannau penodol ar systemau neilltuol. Mae canlyniadau posib o'r prosiect yn cynnwys argymhellion ar gyfer:

(1) fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer ADM;

(2) diwygiadau cyfreithiol pwrpasol ar gyfer ADM, yn enwedig meysydd adrannol; neu

(3) canllaw arfer da ar ddefnyddio ADM yn gyfreithlon a phethau i'w hystyried wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

# Chapter 3: Prosiectau ar y gweill

## RHAGARWEINIAD

3.1 Yn y bennod hon rhoddwn drosolwg byr ar brosiectau eraill a ddeilliodd o'r amser cyn y 14eg Rhaglen ac y mae Comisiwn y Gyfraith naill ai'n gweithio arnynt ar hyn o bryd neu'n bwriadu dechrau gweithio arnynt unwaith fydd adnoddau ar gael. Rhoddir manylion pellach am brosiectau sydd ar y gweill ar ein gwefan.[17]

## ADOLYGIAD GWEINYDDOL

3.2 Bydd y prosiect hwn, sy'n rhan o'n 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith, yn ystyried y systemau mewnol a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau cywir. Gelwir y rhain weithiau'n apeliadau, adolygiadau neu'n ail-ystyriaethau mewnol – ac mae'r broses weithiau'n un o ragofynion apêl ffurfiol i dribiwnlys, neu adolygiad barnwrol.

3.3 Mae penderfyniadau adolygiad gweinyddol yn penderfynu llawer mwy o hawliadau nawdd cymdeithasol, mewnfudo a threth na'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, sydd ond yn ystyried is-set fach o benderfyniadau. Eto i gyd, mae apeliadau llwyddiannus yn uchel mewn rhai meysydd. Bydd ein hadolygiad yn ceisio adnabod egwyddorion ar gyfer adolygiad gweinyddol effeithiol sy'n:

(1) hyrwyddo penderfyniadau cywir, y tro cyntaf;

(2) Lleihau nifer yr apeliadau llwyddiannus yn y llys ac mewn tribiwnlys;

(3) hyrwyddo dysgu sefydliadol ac adborth positif rhwng y prosesau barnwrol ffurfiol a'r prosesau penderfynu mewnol; a

(4) hyrwyddo hyder mewn penderfyniadau gweinyddol gan gynnwys addasu i'r twf disgwyliedig mewn defnyddio awtomatiaeth i gynorthwyo penderfyniadau cyhoeddus.

## AWYRENNAU AWTONOMAIDD

3.4 Mae'r prosiect hwn, a ddechreuodd ym Medi 2022, yn cynnwys adolygu fframwaith rheoleiddio'r DU ar gyfer hedfan sifil, er mwyn paratoi'r DU ar gyfer dyfodiad awyrennau awtonomaidd. Mae'n cael ei noddi gan yr Awdurdod Hedfan Sifil a'r Adran Drafnidiaeth. Mae'r gwaith yn cael ei ariannu gan ac yn rhan o raglen *Future Flight Challenge* Ymchwil ac Arloesi y DU. Yn y prosiect, ystyriwn y gyfraith bresennol gan adnabod unrhyw fylchau, ansicrwydd neu ddarpariaethau a allai atal defnyddio systemau sydd â lefel uchel o brosesau awtomataidd ac awtonomaidd. Rhoddir ffocws penodol ar feysydd lle y mae'r gyfraith yn dyrannu cyfrifoldeb i berson (er enghraifft peilot neu beilot "o bell") a'r problemau sy'n codi pan fydd tasgau'n cael eu perfformio

[17] Wele https://lawcom.gov.uk/current-projects/.

gan systemau awtonomaidd; a sut i ddyrannu cyfrifoldeb sifil a throseddol os yw tasgau'n cael eu perfformio gan system neu'n cael eu rhannu rhwng person a system.

3.5 Cyhoeddwyd papur ymgynghori cyntaf y prosiect yn Chwefror 2024 gan edrych ar ddau o'r tri achos defnydd: drôns, a systemau codi a glanio'n fertigol (VTOL). Roedd yr ail bapur ymgynghori, a gyhoeddwyd yn Ebrill eleni, yn cynnig mesurau diwygio'r gyfraith yn ymwneud â'r trydydd defnydd: systemau rheoli traffig awyr ac awyrlywio. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn 2026.

## CLADDU, AMLOSGI A DULLIAU ANGLADD NEWYDD

3.6 Cafodd y prosiect claddu, amlosgi a dulliau angladd newydd ei weithredu drwy ein 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (yn wreiddiol dan yr enw "Fframwaith Modern ar Gyfer Gwaredu'r Meirw"). Mae iddo dri is-brosiect.

(1) Cyhoeddodd yr is-brosiect claddu ac amlosgi bapur ymgynghori yn Hydref 2024. Fe wnaethom ymgynghori ar gynigion i ddelio â bylchau mewn rhagofalon yn ymwneud â chladdfeydd sy'n codi o'r ddeddfwriaeth dameidiog bresennol. Fe wnaethom hefyd gynigion dros dro ar gyfer ailddefnyddio ac adennill beddi mewn ystod ehangach o gladdfeydd nag a ganiateir ar hyn o bryd, ac i ddelio â materion heb eu datrys yn y gyfraith amlosgi. Gobeithiwn adrodd erbyn dechrau 2026.

(2) Bydd yr ail is-brosiect, dulliau angladd newydd, yn gwneud argymhellion am fframwaith ar gyfer rheoleiddio dulliau angladd newydd. Mae'r rhain yn opsiynau posib i ddulliau angladd sefydledig o gladdu, amlosgi a chladdu ar y môr ac yn cynnwys hydrolysis alcalin a chompostio corfforol, sy'n cael eu defnyddio mewn awdurdodaethau eraill. Mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu pa ddulliau angladd newydd y dylid eu rheoleiddio o dan y fframwaith. Gobeithiwn gyhoeddi papur ymgynghori erbyn haf 2025 ac adrodd, gyda Bil drafft, erbyn gwanwyn 2026.

(3) Bydd yr is-brosiect terfynol, hawliau a rhwymedigaethau ar gyfer angladdau, dulliau angladd a gweddillion, yn dechrau unwaith y daw'r is-brosiect claddu ac amlosgi i ben. Bydd yn delio â natur gweddillion dynol, pwy ddylai wneud penderfyniadau am gorff wedi marwolaeth ac a ddylai person fod yn gallu gwneud penderfyniadau ymrwymol am eu corff eu hunain. Gobeithiwn adrodd ar ddiwedd 2027.

## TENANTIAETHAU BUSNES: YR HAWL I ADNEWYDDU

3.7 Yn 2023, fe wnaethom dderbyn cyfeiriad gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i wneud adolygiad eang o Ran 2 Deddf Landlord a Thenant 1954. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi hawl i denantiaid busnes – a elwir yn aml yn "ddiogelwch deiliadaeth" – i adnewyddu eu tenantiaethau pan fyddent fel arall yn dod i ben, ac aros felly yn yr eiddo.

3.8 Roedd ein papur ymgynghori cyntaf a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2024 yn gofyn cwestiynau pwysig am ba fodel diogelwch deiliadaeth sy'n briodol, ac am gwmpas y Ddeddf. Bydd ail bapur ymgynghori, un technegol, yn cael ei gyhoeddi maes o law.

## ATEBOLRWYDD TRWSIO EGLWYSI A CHOFRESTRU

3.9 Roedd y prosiect hwn yn rhan o'n 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith. Mae atebolrwydd trwsio eglwysi'n rhwymedigaeth ar dirfeddiannwr i dalu am drwsio'r eglwys leol. Mae'n dyddio'n ôl i gyfraith eglwysig cyn y Diwygiad a phur anaml yn cael ei orfodi ond, pan fydd yn cael ei orfodi, gall y gost fod yn anferth.

3.10 O dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002, ni ddylai prynwr tir cofrestredig orfod bod yn atebol am drwsio eglwys os nad yw wedi'i gofnodi yn y gofrestr. Fodd bynnag, cawsom wybod bod rhai pethau sy'n ansicr am natur yr atebolrwydd sy'n codi cwestiynau am Ddeddf 2002 ac ydy hi'n cael yr effaith y bwriadwyd iddi ei chael. Mae'n bosib y gallai atebolrwydd trwsio eglwys heb ei gofrestru fod yn ymrwymo prynwyr o hyd.

3.11 Mae'r prosiect hwn yn ystyried a ddylai'r gyfraith fod yn fwy eglur fel bod prynwr tir yn gallu bod yn sicr nad yw'r tir wedi'i feichio gan atebolrwydd trwsio eglwys heb ei gofrestru. Oherwydd yr ansicrwydd presennol gyda'r gyfraith, mae prynwyr tai a thir yn gwario miliynau pob blwyddyn ar chwiliadau ac yswiriant i helpu i warchod eu hunain rhag atebolrwydd trwsio eglwysi. Gallai'r prosiect atal prynwyr rhag gorfod talu'r costau hyn.

## PRYNIANT GORFODOL

3.12 Pryniant gorfodol yw pan fydd tir yn cael ei brynu heb ganiatâd y perchennog. Gall hyn ond digwydd gydag awdurdod statudol, i bwrpas cyhoeddus a thrwy dalu iawndal i'r perchennog. Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau cyhoeddus bŵer i brynu tir drwy bryniant gorfodol er mwyn cefnogi datblygiadau er budd cyhoeddus. Ond mae prynu eiddo'n orfodol yn gallu cael effaith andwyol aruthrol ar yr unigolion a'r busnesau a effeithir arnynt. Mae gweithdrefnau pryniant gorfodol, a'r iawndal i'w dalu i'r rhai a effeithir arnynt, felly'n cael eu rheoli'n dynn gan y gyfraith. Ond mae'r gyfraith yn ddarniog, yn ddiangen o gymhleth, ac angen ei moderneiddio. Mae'n deillio'n sylweddol o ddeddfwriaeth a chyfraith achosion o'r 19eg ganrif ac wedi'i gwisgo hyd heddiw mewn iaith hynafol.

3.13 Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cwblhau prosiect ar bryniant gorfodol o'r blaen. Arweiniodd at adroddiadau yn 2003 a 2004, ar iawndal yn y naill achos a gweithdrefn yn y llall. Fodd bynnag, penderfynodd y Llywodraeth beidio â gweithredu ein hargymhellion bryd hynny. Mae galwadau wedi parhau am gyfres gynhwysfawr, symlach a mwy modern o gyfreithiau. Mae'r prosiect presennol yn Gyfeiriad Gweinidogol a'r adran sy'n noddi yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'n edrych ar y cyfreithiau sy'n berthnasol i'r weithdrefn pryniant gorfodol ac i asesu iawndal. Ei nod craidd yw cyfuno a chodeiddio'r gyfraith gan wneud newidiadau technoleg er mwyn symleiddio, moderneiddio a chytgordio'r ddeddfwriaeth. Yn Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori a daeth yr ymgynghoriad i ben yn gynnar yn 2025. Ar ôl dadansoddi ymatebion y rhanddeiliaid, ac adolygu gyda'r Adran, bwriadwn gyhoeddi adroddiad a Bil drafft.

## DIRMYG LLYS

3.14 Mae "dirmyg llys" yn cyfeirio at amrywiaeth eang o ymddygiad a allai rwystro neu ymyrryd ag achos llys neu weinyddu cyfiawnder.

3.15 Mae enghreifftiau'n cynnwys torri gorchymyn llys yn fwriadol, tyst yn gwrthod ateb cwestiynau'r llys ar ôl cael ei alw, neu ryddhau lluniau ffotograff neu wneud sylw cyhoeddus ar ddatblygiadau yn y llys pan fydd cyfyngiadau adrodd yn eu lle.

3.16 Mae datblygiad y gyfraith dirmyg llys wedi bod yn ansystematig gan greu cyfundrefn sy'n aml yn ddi-drefn ac aneglur. Cyfyd problemau gyda'r gwahaniaeth dryslyd rhwng dirmyg llys sifil a throseddol, y nifer o wahanol ffyrdd y gall rhywun fod yn euog o ddirmyg, a'r gorgyffwrdd rhwng y gyfraith dirmyg a throseddau'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, fel gwrthdroi cwrs cyfiawnder. Mae pryderon cynyddol hefyd am effaith y cyfryngau cymdeithasol a datblygiadau technolegol ar weinyddu cyfiawnder.

3.17 Ar 9 Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori o gynigion dros dro. Ein hamcan yw cynhyrchu cyfraith dirmyg sy'n haws ei deall, yn decach ac sy'n diogelu gweinyddu cyfiawnder yn well.

3.18 Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 29 Tachwedd 2024 a byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad mewn dwy ran. Yn dilyn cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y Twrnai Cyffredinol a'r Arglwydd Ganghellor i brysuro'r gwaith ar rai pethau yn ein prosiect, byddwn yn cyhoeddi rhan un yn hydref 2025 a bydd yn trafod atebolrwydd am ddirmyg llys a rôl y Twrnai Cyffredinol mewn achosion dirmyg. Bydd rhan dau'n cael ei gyhoeddi yn 2026 a bydd yn trafod popeth arall.

## CWMNÏAU CYDWEITHREDOL A CHYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL

3.19 Mae cwmnïau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn gymdeithasau busnes. Maen nhw'n cynnig opsiwn arall i gwmnïau a phartneriaethau, er enghraifft. Mae cwmnïau cydweithredol yn gymdeithasau o ddefnyddwyr, cynhyrchwyr, neu weithwyr. Rhan o'u pwrpas yw gwneud y mwyaf o arbedion maint. Er enghraifft, pan fydd cynhyrchwyr neu weithwyr yn dod at ei gilydd fel aelodau o gwmni gydweithredol, gallent ofyn am brisiau gwell yn y farchnad am y cynnyrch neu'r llafur. Pan ddaw defnyddwyr at ei gilydd fel aelodau o gwmni gydweithredol, gallai prisiau rhatach am nwyddau neu wasanaethau fod ar gael. Gall y cwmni wedyn basio'r prisiau gwell hynny wrth werthu i'w ddefnyddwyr, prynu gan ei gynhyrchwyr, neu dalu ei weithwyr. Mae cymdeithasau budd cymunedol yn cwblhau busnes er budd y gymuned. Gall fod ar gyfer ystod o wahanol weithgareddau, o fod yn berchen ar dafarn leol, cyhoeddi papur newydd, creu rhwydwaith ynni adnewyddadwy lleol, neu ddarparu tai cymdeithasol.

3.20 Mae cwmnïau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae Trysorlys EF wedi gofyn i ni adolygu'r Ddeddf i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â natur ac anghenion cwmnïau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, a bod y rheoleiddio'n gymesur ac effeithiol. Ym Medi 2024 fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori'n cyflwyno cynigion diwygio'n cynnwys gofynion cofrestru, cyfranddaliadau cymdeithas a dyletswyddau cyfarwyddwyr. Gobeithiwn gyhoeddi'r adroddiad terfynol gyda Bil Drafft erbyn diwedd 2025.

## APELIADAU TROSEDDOL

3.21 Yn y blynyddoedd diweddar, mae nifer o gyrff a sefydliadau blaenllaw – gan gynnwys Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin a Chomisiwn San Steffan ar Gamweinyddu Cyfiawnder – wedi dadlau bod angen diwygio'r gyfraith apeliadau troseddol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y ffordd dameidiog y mae'r gyfraith hon wedi datblygu'n golygu bod anghysondebau, ansicrwydd a bylchau ynddi.

3.22 Yng Ngorffennaf 2022, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith ar apeliadau troseddol. Rydyn ni'n ystyried yr angen i ddiwygio er mwyn sicrhau bod gan y llysoedd bwerau sy'n eu cynorthwyo i ddatrys apeliadau mewn ffordd effeithiol, effeithlon a phriodol. Bydd hefyd yn ystyried a fyddai cyfuno'r ddeddfwriaeth apêl bresennol yn gwneud y gyfraith yn gliriach a mwy cyson.

3.23 Mae'r adolygiad yn cynnwys pwerau'r Llys Apêl (Adran Droseddol) ("CACD"); pwerau'r Twrnai Cyffredinol i gyfeirio materion at y CACD; amodau'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol ar gyfer caniatáu cyfeirio at y CACD; yr amrywiol ddulliau apêl o ganfyddiadau yn y llysoedd Ynadon; a'r cyfreithiau ar gadw a chael mynediad at dystiolaeth a chofnodion achosion llys.

3.24 Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyhoeddi Papur Materion gan dderbyn dros 150 ymateb iddi'n cynnwys rhai gan garcharorion dan glo, cyrff gwladol fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, cyfreithwyr, academyddion ac ymgyrchwyr unigol, cyrff proffesiynol, elusennau a grwpiau cynrychiadol. Yn Chwefror 2025 fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori'n cyflwyno cynigion diwygio dros dro. Gobeithiwn gyhoeddi adroddiad terfynol yn 2026.

## ASEDAU DIGIDOL A DOGFENNAU MASNACH ELECTRONIG MEWN CYFRAITH RYNGWLADOL BREIFAT

3.25 Pan fydd partïon anghydfod cyfraith breifat mewn gwahanol wledydd, neu'r ffeithiau a'r materion a achosodd yr anghydfod yn croesi ffiniau gwladol, mae cwestiynau cyfraith ryngwladol breifat yn codi. Yn llysoedd pa wlad ddylai'r partïon gyfreitha eu hanghydfod? Cyfraith pa wlad ddylai gael ei defnyddio i'w ddatrys? Sut y gellir gorfodi dyfarniad y llys mewn gwlad arall? Cyfraith ryngwladol breifat yw'r corff o gyfraith ddomestig sy'n darparu'r rheolau ar gyfer penderfynu'r cwestiynau hyn.

3.26 Mae technolegau modern yn herio'r seiliau tiriogaethol a ddefnyddiwyd i ddatblygu rheolau presennol y gyfraith ryngwladol breifat. Yn hyn o beth, roedd dyfodiad y we'n gatalydd i newid economaidd-gymdeithasol a gyflwynodd heriau sylweddol i gyfraith ryngwladol breifat. Mae arloesi mwy diweddar fel crypto-asedau a chyfriflyfrau gwasgaredig, yn ychwanegu problemau newydd at yr heriau hyn.

3.27 Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiwn y Gyfraith gwblhau'r prosiect hwn gan ystyried sut fydd rheolau cyfraith ryngwladol breifat yn berthnasol i'r cyd-destun digidol. Yn benodol, gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith ystyried pa anghydfodau sy'n debygol o godi yn y cyd-destun digidol (gan gynnwys rhai cytundebol, camweddus ac eiddo) a gwneud unrhyw argymhellion diwygio y gwêl fod angen eu gwneud i'r Llywodraeth. Mae ein prosiect yn rhoi ffocws penodol ar grypto-asedau a dogfennau masnachol electronig (fel biliau cyfnewid electronig).

3.28 Rydyn ni wedi cyhoeddi dwy ddogfen Cwestiynau Cyffredin yn egluro perthnasedd y gyfraith bresennol – y naill yn achos dogfennau masnach electronig a'r llall yn achos

crypto-asedau. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym Mehefin 2025 gan ddisgwyl cyhoeddi adroddiad terfynol yn 2026.

## GOFAL CYMDEITHASOL PLANT ANABL

3.29 Mae cyfraith gofal cymdeithasol plant anabl yn cyfeirio at y corff o reolau sy'n penderfynu:

(1) a oes help gan y gwasanaethau cymdeithasol i gwrdd ag anghenion plentyn anabl;

(2) pa help sydd ar gael; a

(3) sut i gael yr help hwn.

Mae'r gyfraith ar hyn wedi dyddio. Er enghraifft mae'r diffiniad o anabledd yn dyddio'n ôl i'r 1940au. Mae'r gyfraith yn anhygyrch. Mae wedi'i gwasgaru ar draws nifer o statudau'n dyddio o 1970 ymlaen sydd angen eu darllen ochr yn ochr â chorff helaeth o reoliadau, cyfraith achosion a chanllawiau. Gall y gyfraith hefyd fod yn annheg drwy ganiatáu i blant ag anghenion tebyg gael eu trin yn wahanol, gan ddibynnu ar ble y maen nhw'n byw.

3.30 Yn y prosiect hwn, edrychwn ar gyfraith gofal cymdeithasol plant anabl gan ystyried ydy hi'n cwrdd yn ddigonol ag anghenion plant anabl a'u teuluoedd. Bydd y prosiect yn gwneud argymhellion er mwyn symleiddio a moderneiddio'r gyfraith a hyrwyddo eglurder a chysondeb. Wrth gwblhau'r prosiect, ystyriwn waith ehangach y Llywodraeth ar ofal cymdeithasol plant a sut y mae'r gyfraith gofal cymdeithasol plant anabl yn gyson â rhannau eraill o'r llyfr statud yn ymwneud â gofal cymdeithasol, cymorth Anghenion Addysgol Arbennig a hawliau plant.

3.31 Roedd y prosiect yn Gyfeiriad Gweinidogol yn dilyn argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant 2022. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad rhwng Hydref 2024 ac Ionawr 2025 gan obeithio cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym Medi 2025. Yr adran sy'n noddi yw'r Adran Addysg.

## TYSTIOLAETH WRTH ERLYN TROSEDDAU RHYW

3.32 Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith edrych ar y broses dreial ac ystyried y gyfraith, y canllawiau a'r ymarfer ar ddefnyddio tystiolaeth wrth erlyn troseddau rhyw. Rydyn ni'n ystyried yr angen i ddiwygio er mwyn gwella dealltwriaeth o ganiatâd a niwed rhywiol, sut y mae achwynwyr yn cael eu trin, a sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg.

3.33 Mae'r prosiect yn ystyried y ffyrdd presennol o ddelio â chamsyniadau yn ystod proses y treial, gan gynnwys:

(1) defnyddio cyfarwyddiadau rheithgor ac addysg rheithwyr yn gyffredinol;

(2) derbyn tystiolaeth arbenigol i wrthsefyll camsyniadau o gwmpas troseddau rhywiol;

(3) derbyn tystiolaeth o hanes rhywiol yr achwynydd;

(4) derbyn cofnodion personol yr achwynydd gan gynnwys eu cofnodion meddygol a chwnsela;

(5) derbyn tystiolaeth o gymeriad y diffynnydd a'r achwynydd; a

(6) defnyddio mesurau arbennig yn ystod y treial.

3.34 Yn Chwefror 2022 fe wnaethom gyhoeddi papur cefndir yn amlinellu cwmpas y prosiect gan gyflwyno'r prif gysyniadau a materion cyfreithiol sy'n codi ac ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin.

3.35 Ym Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori'n cynnwys ein cynigion diwygio dros dro. Gan ddeall mai dim ond y diweddaraf mewn cyfres hir o adolygiadau tebyg yw ein gwaith, roedden ni'n cloi'r papur ymgynghori drwy ystyried syniadau ar gyfer diwygio radical. Ni wnaethom gynigion gan ystyried yn hytrach y dadleuon o blaid ac yn erbyn gwneud rhai newidiadau sylweddol i'r broses dreial ar gyfer troseddau rhyw. Er enghraifft, gofyn am farn am ddefnyddio arholwyr arbenigol a llysoedd arbenigol, a chyflwyno treialon di-reithgor.

3.36 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Medi 2023 ac rydyn ni bellach yn y broses o ddadansoddi'r ymatebion gan ddisgwyl cyhoeddi adroddiad gydag argymhellion terfynol erbyn haf 2025.

## CYMDEITHASAU CYFEILLGAR

3.37 Sefydliadau sy'n rhoi yswiriant neu fuddion eraill i'w haelodau yw cymdeithasau cyfeillgar. Mae gan y cymdeithasau hyn fodel "cydfuddiannol". Mae hyn yn golygu mai eu haelodau sy'n berchen arnynt ac yn eu hariannu (yn bennaf) gyda'r elw'n cael ei ddosbarthu i'r aelodau neu ei ailfuddsoddi er budd yr aelodau. Yn wahanol i gwmnïau, nid oes cyfranddalwyr na buddsoddwyr allanol. Mae cymdeithasau cyfeillgar a sefydliadau cydfuddiannol yn cynnig ethos a strategaeth fusnes wahanol o'i gymharu â chwmnïau sy'n gweithio er budd ariannol eu cyfranddalwyr. Drwy ddarparu cynlluniau cydfuddiannol, gall cymdeithasau cyfeillgar gynnig pwrpas masnachol pwysig, yn enwedig o ran meithrin amrywiaeth corfforaethol economaidd a chynhwysiant ariannol.

3.38 Mae Trysorlys EF wedi gofyn i ni adolygu'r gyfraith ar gymdeithasau cyfeillgar a gwneud argymhellion i'w moderneiddio fel eu bod yn gallu ffynnu a pharhau i wasanaethu eu haelodau. Mae'r adolygiad yn ymwneud â dwy Ddeddf: Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 a Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992, y ddwy Ddeddf yn berthnasol i ystod eang o gymdeithasau. Yn enwedig, mae Deddf 1974 yn berthnasol nid yn unig i gymdeithasau cyfeillgar ond hefyd i fathau eraill o gymdeithasau'n cynnwys cymdeithasau llesiannol a chlybiau dynion gweithio.

3.39 Ym Mawrth 2025 fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori'n trafod ystod o faterion gan gynnwys a ddylid cadw Deddf 1974: sut y gellir diogelu asedau etifeddol a sut efallai i gymell yn erbyn dad-gydfuddiannu; sut i wneud trafodiadau trosglwyddo busnes yn symlach a mwy cost-effeithiol, a'r heriau sy'n gysylltiedig â chodi arian cyfalaf. Gobeithiwn gyhoeddi'r adroddiad terfynol yn 2026.

## GOFAL GAN BERTHYNAS

3.40 Disgrifiwyd gofal gan berthynas fel "unrhyw sefyllfa lle y mae plentyn yn cael ei fagu yng ngofal ffrind neu aelod o'r teulu sydd ddim yn rhiant i'r plentyn, am ran sylweddol o'r amser. Gall y trefniant fod yn un dros dro neu'n fwy hirdymor".[18] Amcangyfrifir bod 141,000 o blant yn byw dan drefniant gofal perthynas yng Nghymru a Lloegr. Yn fwy cyffredin, bydd gofal gan berthynas yn opsiwn yn lle rhoi plentyn mewn gofal, neu'n ffordd o ofalu am blentyn sy'n destun gorchymyn gofal.

3.41 Mae'r gwahanol ddulliau o ffurfioli gofal gan berthynas, gan gynnwys drwy orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gorchymyn trefniadau plentyn, a thrwy faethu, yn gymhleth a dryslyd i ofalwyr perthynas, sydd ddim o hyd yn teimlo'n ffyddiog bod y gorchymyn sy'n ategu'r trefniant yn iawn i'w hamgylchiadau. Daeth ein prosiect ar ofal gan berthynas i Gomisiwn y Gyfraith drwy Gyfeiriad Gweinidogol yn Rhagfyr 2023 gyda'r gwaith yn dechrau yn 2025.

## Y GYFRAITH LLADDIADAU

3.42 Cafodd y gyfraith lladdiadau ei hadolygu'n drylwyr gan Gomisiwn y Gyfraith ar ddechrau degawd 2000. Yn yr 20 mlynedd bron ers hynny, prin y newidiodd y problemau a gafodd eu hadnabod. Pan wnaethom adrodd yn 2006, fe wnaethom ddisgrifio'r gyfraith lladdiadau "fel strwythur simsan ar sylfeini sigledig. Mae rhai o'i rheolau heb newid ers yr 17eg ganrif er i lawer gydnabod ers tro byd bod taer angen diwygio'r gyfraith hon. Mae cynnwys rheolau eraill yn ansicr, yn aml oherwydd y cawsant eu newid yn barhaus fel na ellir bellach dweud i sicrwydd nac eglurder beth ydyn nhw".

3.43 Wrth i gymdeithas a'r gyfraith symud ymlaen, cododd broblemau newydd a chyfyngiadau posib gyda'r gyfraith bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu'r gyfraith ar gyd-fenter, sut y dylid adlewyrchu cyfrifoldeb lleiedig mewn unrhyw ddosbarthiad newydd o droseddau lladd, ac i ba raddau y mae'r gyfraith yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o effeithiau cam-drin domestig.

3.44 Yn Rhagfyr 2024, cytunodd y Comisiwn â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y dylid edrych eto ar y gyfraith lladdiadau. Rydyn ni wedi cytuno i ailystyried a diweddaru argymhellion 2006, ystyried amddiffyniadau ac amddiffyniadau rhannol ar gyfer llofruddiaeth, yn enwedig drwy fod diwygiadau 2009 wedi cael amser i wreiddio erbyn hyn, a chwblhau adolygiad llawn o'r fframwaith dedfrydu statudol ar gyfer llofruddiaeth.

3.45 Bydd ein prosiect presennol ar amddiffyniadau llofruddiaeth i ddioddefwyr cam-drin sy'n lladd eu camdriniwr bellach yn rhan o'r prosiect lladdiadau ehangach.

## MODERNEIDDIO'R GYFRAITH EWYLLYSIAU

3.46 Mae'r prosiect hwn yn deillio o'n 12fed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith. Mae'n adolygu'r gyfraith ar ewyllysiau i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i bwrpas.

---

[18] Yr Adran Addysg, *Stable Homes, Built on Love: Implementation Strategy and Consultation* (Chwefror 2023) t. 85.

3.47 Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori yng Ngorffennaf 2017. Yn 2019 fe wnaethom gytuno â'r Llywodraeth i ohirio'r prosiect ewyllysiau ac adolygu'r gyfraith ar briodasau. Ail-ddechreuwyd y prosiect ewyllysiau yn yr Hydref 2022. Ym mis Hydref 2023, mewn papur ymgynghori atodol, ail-ymgynghorwyd ar ddau bwnc yr oeddem yn meddwl y gallai datblygiadau fod wedi achosi newid barn ymhlith ymgyngoreion: ewyllysiau electronig a'r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil yn diddymu ewyllys.

3.48 Cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol gyda'n hargymhellion diwygio, ynghyd â Bil drafft, ym Mai 2025.

## MODERNEIDDIO'R GYFRAITH YMDDIRIEDOLAETHAU

3.49 Defnyddir ymddiriedolaethau gan amryw yn y DU ond hefyd gan unigolion a chorfforaethau'n rhyngwladol, sy'n aml yn dewis ein cyfraith a'n llysoedd domestig i lywodraethu eu trefniadau. Mae'r penderfyniad hwnnw'n gwneud ein cyfraith yn allforyn byd-eang pwysig gan ddod â gwahanol fusnes i'r DU.

3.50 Mae nifer o grwpiau rhanddeiliaid blaenllaw wedi cyfeirio at amrywiol broblemau technegol a chyfyngiadau gyda'r gyfraith bresennol. Byddai prosiect diwygio'n adolygu'r gyfraith ymddiriedolaethau'n edrych ar gyfraith sydd wedi dyddio gyda golwg ar ei moderneiddio, gan helpu i gadw ei henw da. Nid yw'r gyfraith gyffredinol ar ymddiriedolaethau wedi cael ei hadolygu'n gynhwysfawr ers 1925. Ar y llaw arall, mae llawer o awdurdodaethau "ar y lan" ac "oddi ar y lan" – fel yr Alban, Jersey, Seland Newydd a Singapore – wedi diweddaru eu cyfraith ymddiriedolaeth a bod yn greadigol yn cynnal marchnad ymddiriedolaethau iach. Yn ogystal â phroblemau gyda'r gyfraith bresennol, cyfeiriodd rhanddeiliaid at strwythurau ymddiriedolaeth / tebyg i ymddiriedolaeth amgen a hyblyg a ddatblygwyd gan awdurdodaethau eraill sydd ddim ar gael yng Nghymru a Lloegr. Efallai na fydd yr holl strwythurau hyn ar gael i'r awdurdodaeth hon ond mae dadl gref dros werthuso eu manteision a'u hanfanteision.

3.51 Cafodd y prosiect hwn ei gytuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'n 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith. Bydd yn astudiaeth gwmpasu gychwynnol yn edrych ar broblemau gyda'r gyfraith ymddiriedolaeth er mwyn adnabod agweddau arni i'w cynnwys mewn un neu fwy o brosiectau diwygio'r gyfraith. Ni fydd y prosiect yn ystyried y gyfraith camgymeriad (sydd â goblygiadau treth sylweddol), na'r cwestiwn a ddylai fod gan ymddiriedolaethau bersonoliaeth gyfreithiol.

## GWRTHRYCHAU MEWN CASGLIADAU AMGUEDDFEYDD

3.52 Mae amgueddfeydd yn cael problemau sylweddol yn delio â gwrthrychau lle y mae'r teitl cyfreithiol, oherwydd cofnodion caffael gwael neu absennol (yn aml o gyfnod pryd nad oedd cadw cofnodion yn cwrdd â safonau cyfoes), yn ansicr neu'r perchennog yn anhysbys ac ni ellir dod o hyd iddynt. Gwaith amgueddfeydd yw delio â'r gwrthrychau hyn (er enghraifft, drwy eu trosglwyddo i amgueddfeydd eraill) oherwydd y risg o fod yn atebol am gam sifil (ymyrryd) os nad oedd ganddynt hawl mewn gwirionedd i wneud hynny.

3.53 Mae awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am redeg amgueddfeydd yn wynebu problemau penodol oherwydd diffyg eglurder ynghylch sut – yn gyfreithiol – y dylid cadw'r eitemau a phryd y gellir yn gyfreithlon (ac yn foesol) eu gwaredu. Hefyd, gall rhai

amgueddfeydd cenedlaethol ond gwaredu eitemau drwy ddilyn proses y gellid dadlau ei bod yn ddiangen ac sydd angen awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol.

3.54 Cafodd y prosiect ei dderbyn fel rhan o'n 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith, gyda chymorth yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd yn adolygu'r problemau hyn gyda golwg ar ddarparu rheolau cyfreithiol clir ar sut i gadw a delio gyda gwrthrychau. Byddai rheolau o'r fath yn helpu i dawelu meddyliau darpar roddwyr, fydd yna'n deall yn well beth y gellir ac na ellir ei wneud â'u rhodd. Byddai'r rhai sy'n gyfrifol am gasgliadau amgueddfeydd hefyd yn gallu rheoli eu casgliadau'n fwy effeithiol heb orfod gofyn yn gyntaf am gyngor cyfreithiol arbenigol drud i gadarnhau'r rheolau cyfreithiol perthnasol, neu achosi costau storio diangen am eitemau sydd heb werth treftadol mwyach. Gobeithiwn ddechrau'r prosiect yn 2025.

## CYMRODEDDU'R GYFRAITH YMDDIRIEDOLAETH

3.55 Ffurf ar ddatrys anghydfod yw cymrodeddu. Os oes anghydfod rhwng dau neu fwy o bartïon na fedrant ei ddatrys eu hunain, yn lle mynd i'r llys medrant benodi trydydd person fel cymrodeddwr i ddatrys yr anghydfod ar eu rhan drwy gynnal achos cymrodeddu sy'n arwain at y cymrodeddwr yn gwneud dyfarniad. Defnyddir cymrodeddu'n eang ar gyfer anghydfodau masnachol ac mae'r Ddeddf Cymrodeddu ddiweddar (2025) wedi parhau'r rôl flaenllaw y mae cyfraith Cymru a Lloegr yn ei chwarae yn y maes hwn.

3.56 Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith bresennol yn cydnabod bod cymal mewn offeryn ymddiriedolaeth yn ddilys a gorfodadwy a rhaid cyflwyno unrhyw anghydfod rhwng ymddiriedolwyr a buddiolwyr yr ymddiriedolaeth ar gyfer cymrodeddu. Gall buddiolwyr ddefnyddio cymrodeddu os oes ganddynt gytundeb ar wahân gyda'r ymddiriedolwyr, ond gall trafferthion godi gydag ystod a pha mor orfodadwy yw dyfarniadau. Bydd y prosiect hwn, a dderbyniwyd fel Cyfeiriad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn ystyried a ddylai a sut y gallai'r gyfraith ganiatáu ar gyfer a hwyluso datrys anghydfodau ymddiriedolaeth, heblaw gydag anghydfod ynghylch dilysrwydd trosglwyddo asedau'r ymddiriedolaeth ei hun; ac yn ystyried a ddylai a sut y gallai credydwyr a buddiolwyr ifanc, heb eu geni, heb eu cadarnhau ac analluog gael eu rhwymo gan ddyfarniad cymrodeddu.

# Chapter 4: Prosiectau posib pellach

## RHAGARWEINIAD

4.1 Roedd Comisiwn y Gyfraith yn falch iawn o dderbyn yr holl wahanol syniadau ar gyfer diwygio’r gyfraith gan ymgyngoreion mewn ymateb i’n hymgynghoriad ar y 14eg Rhaglen.

4.2 Yn y bennod hon, trafodwn rai o’r cynigion nad ydym wedi gallu eu gweithredu fel rhan o’r Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg. Mewn rhai achosion, eglurwn pam nad ydym yn bwriadu, am y tro, gwneud gwaith pellach yn y meysydd hyn. Mewn achosion eraill, cyfeiriwn at gynigion a allai, yn ein barn ni, fod â haeddiant sylweddol fel prosiectau diwygio’r gyfraith. Os bydd adnoddau’n caniatáu, gallai fod yn bosib derbyn un neu fwy o’r prosiectau hyn fel Cyfeiriadau gan Weinidogion yn ystod y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg.

## CYFRAITH RHANNU DATA A GWYBODAETH

4.3 Ar hyn o bryd mae’r fframwaith deddfwriaethol domestig sy’n rheoleiddio diogelu data’n cynnwys y prif gyfreithiau canlynol:

(1) Deddf Diogelu Data (2018);

(2) Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (“GDPR y DU”);

(3) Deddf Hawliau Dynol 1998, Atodlen 1, Erthygl 8;

(4) y gyfraith gyffredin ar gyfrinachedd; a

(5) y Rheoliadau ar Breifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003.

4.4 Mae rhanddeiliaid yn ystyried bod y gyfraith yn gymhleth ac aneglur gan arwain at rwystrau gwirioneddol a thybiedig i ba mor ddymunol yw rhannu data er budd y cyhoedd. Gellid dadlau bod y cymhlethdod hwn wedi’i waethygu drwy drosi GDPR y DU o gyfraith gadw’r UE i’r gyfraith a gymathwyd. Byddai prosiect ar rannu data a phrosiect cyfraith wybodaeth yn gwneud argymhellion i gyfuno neu symleiddio’r fframwaith cyfreithiol hwn.

## RHWYMEDÏAU ARIANNOL AR GYFER YSGARIAD

4.5 Ystyriwyd cynnwys nifer o brosiectau cyfraith teulu yn y Rhaglen hon o Ddiwygio’r Gyfraith. Er nad oeddem mewn sefyllfa i gynnwys gwaith o’r fath yn y Rhaglen hon, rydym er hynny’n awyddus i gwblhau prosiectau yn y maes pwysig hwn.

4.6 Dylid nodi’n arbennig y byddem yn croesawu cyfle i barhau ein gwaith ar Rwymedïau Ariannol ar Ysgariad. Casglodd ein hadroddiad cwmpasu, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2024, fod gwaith i’w wneud ar ddiwygio’r gyfraith gan awgrymu i’r Llywodraeth bod pedwar model posib y gallai’r diwygiadau fod yn seiliedig arnynt. Arhoswn am ymateb i’r adroddiad hwnnw gan Lywodraeth felly ni fu’n bosib penderfynu pa waith ar gyfer y

dyfodol y dylid ei gynnwys yn y Bedwaredd Rhaglen Ar Ddeg. Unwaith y daw'r ymateb hwnnw, byddwn yn trafod gyda'r Llywodraeth i benderfynu a oes mwy y gallai Comisiwn y Gyfraith ei gyfrannu i sicrhau diwygiadau sydd taer eu hangen.

## PRYNU CARTREF

4.7 Gall prynu cartref fod yn un o'r trafodiadau pwysicaf y mae rhywun yn ymrwymo iddo mewn bywyd. Gall hefyd fod yn un o'r rhai mwyaf poenydiol. Gall y broses o brynu cartref fod yn araf, cymhleth ac ansicr a gallai'r partïon sy'n rhan o'r trafodiad orfod talu costau sylweddol ymlaen llaw, heb unrhyw sicrwydd y bydd y gwerthiant yn digwydd.

4.8 Roedd prosiect yn y maes hwn yn un oedd yn cael ei gefnogi gan nifer sylweddol o randdeiliaid pan ymgynghorwyd ar y 14eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith ac rydym wedi ystyried y prosiect yn ofalus (fel y gwnaethom wrth baratoi ein 13eg Rhaglen).

4.9 Mae'r problemau gyda'r broses Prynu Cartref yn aml-weddog a barnwn o ystyried hyn mai'r ffordd orau y gallai'r Comisiwn gyfrannu yn y maes cymhleth hwn fyddai drwy wneud ymchwil a chwblhau ymarfer cwmpasu i sefydlu pa wersi y gallwn eu dysgu gan awdurdodaethau eraill a sut y gallai diwygio'r gyfraith ddarparu gwelliannau. Ar ôl cyrraedd y farn hon, byddwn yn parhau i drafod gyda'r Llywodraeth y posibilrwydd y gallai Comisiwn y Gyfraith wneud gwaith ar y pwnc pwysig hwn, tra bo'r Llywodraeth yn gwneud ei gwaith ei hun i wella'r broses o brynu a gwerthu cartrefi.[19]

## TELERAU ANNHEG MEWN PRYDLES BRESWYL

4.10 Cafodd prosiect ar delerau annheg mewn prydles breswyl ei gynnwys fel rhan o'n 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith fel prosiect ar gyfer y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth y prosiect allan o'n gwaith ar Ffioedd Digwyddiad mewn Eiddo Ymddeol, a adroddodd yn 2017.[20]

4.11 Roeddem yn rhagweld y byddai'r prosiect yn ystyried, pob tro y byddai prydles yn cael ei throsglwyddo, a ddylid gweld hynny fel creu contract newydd rhwng y landlord a'r les-ddaliwr i bwrpas y gyfraith telerau annheg. Wrth ystyried telerau annheg posib, gallai'r llysoedd wedyn ganolbwyntio ar yr amgylchiadau oedd yn bodoli pan drosglwyddwyd y brydles i'r les-ddaliwr presennol.

4.12 O ystyried gwaith arall ar les-ddaliadau, nid yw'r prosiect yma mwyach yn rhan o'n cynllun gwaith i'r dyfodol.

## OEDOLION BREGUS MEWN PERYGL

4.13 Byddai'r prosiect arfaethedig ar oedolion bregus yn adolygu'r gyfraith ar ymyrraeth y wladwriaeth ym mywydau oedolion bregus sydd a galluedd meddyliol ond mewn perygl o gael eu hecsbloetio neu gam-drin.

---

19 Wele https://www.gov.uk/government/news/home-buying-and-selling-to-become-quicker-and-cheaper.

20 Ffioedd Digwyddiad mewn Eiddo Ymddeol (2017) Com. y Gyfraith Rhif 373: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20241223105353/https:/lawcom.gov.uk/project/event-fees-in-retirement-properties/.

4.14 Cyhoeddodd Gomisiwn y Gyfraith adroddiad ar hyn o'r blaen yn 1995 ond ni chafodd ei argymhellion eu gweithredu. Dros yr 20 mlynedd diwethaf felly, mae'r Uchel Lys wedi datblygu ei ddefnydd o awdurdodaeth gynhenid i ddelio â'r achosion hyn. Nid yw cwmpas yr awdurdodaeth wedi'i ddiffinio'n glir nac yn cael ei gymhwyso'n gyson. Mae gwahanol farn am faterion sylfaenol fel a oes gan y llys bwerau i wneud gorchmynion yn erbyn yr oedolyn bregus ei hun, am faterion pwysig fel ble y mae'n byw a'r rôl (os o gwbl) y mae caniatâd, neu ddiffyg caniatâd, yr oedolyn yn ei chwarae mewn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad cafwyd system sydd ddim yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid awdurdod lleol ynghylch pa gamau y medrant eu cymryd yn gyfreithlon i ddiogelu lles oedolion bregus yn eu hardal, ac a oes angen sancsiwn barnwrol, a phryd.

4.15 Byddai prosiect ar hyn yn edrych ar bryd y dylai'r gyfraith ganiatáu neu ofyn bod y wladwriaeth yn gweithredu ar ran oedolyn bregus, pa gamau y gellir neu ddylid eu cymryd, a'r egwyddorion i'w dilyn gan y llysoedd wrth gadarnhau'r camau hynny.

(llofnod)

Syr Peter Fraser,
Cadeirydd
Nick Hopkins
Penney Lewis
Alison Young

Joanna Otterburn a Roshnee Patel

Cyd-Brif Weithredwyr

16 Ebrill 2025

# Atodiad 1: Rhestr ymgyngoreion

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ac wedi ystyried yr ymatebion i gyd ym mha bynnag fformat y cawsant eu hanfon.[1]

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys rhai gan y canlynol:

Grŵp Ymgyrchu Mynediad at Gofnodion

Sefydliad Ada Lovelace

Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol

Alex Griffith

AlgorithmWatch

Amar

Andreas Gledhill KC

APPEAL

Cymdeithas Rhandiroedd Archfields (Hendon)

Ario Advisory

Arman Sarvarian, Prifysgol Surrey

Gweithredwyr Cysylltiol y Cymunedau Ymddeol

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio

Cymdeithas y Cyfreithwyr Pensiynau

Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Ffederasiwn Rhandiroedd Barnet

Y Farwnes Ruth Deech KC (Anrh)

Barry Fletcher

Ben Giaretta

Bethany de Montjoie Rudolf

Bird and Bird LLP

Grŵp Diwygio Cofrestru Genedigaethau

Cymdeithas Parcio Prydain

Carole McCartney, Prifysgol Northumbria

Cymdeithas Bar y Siawnsri

Chara Bakalis, Prifysgol Oxford Brookes

Cymdeithas y Gyfraith Elusennau

Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr

Y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach

Chris Pearce

Chris Rispin

[1] Mae'r rhestr ymgyngoreion yn yr Atodiad hwn yn seiliedig ar ein cofnodion o 2021. Roedd profforma ymateb ffurfiol y Comisiwn i'r ymgynghoriad yn cynnwys hysbysiad y bydd pob ymateb yn cael ei drin fel dogfen gyhoeddus. Os na roddwyd yr hysbysiad hwn i ymgynghorai, er enghraifft oherwydd eu bod wedi cysylltu â'r Comisiwn drwy e-bost heb lenwi'r profforma, rhaid i'r Comisiwn weithio ar y sail nad oes gennym ni ganiatâd i gyhoeddi'r ymateb na manylion personol yr unigolyn sy'n ymateb. Gallai gwneud hynny olygu bod Comisiwn y Gyfraith yn torri ei rwymedigaethau cyfreithiol i ddiogelu gwybodaeth unigolion.

Christopher Jessel

Gwasanaeth Cynghori Deddfwriaeth Eglwysi

CILEX

Cinnamon Rogers

Pwyllgor Cyfraith Fasnachol Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain

Pwyllgor Cyfraith Ariannol Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain

Pwyllgor Cyfraith Ansolfedd Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain

Pwyllgor Cyfraith Tir Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain

Pwyllgor Cyfraith Rheoleiddio Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain

Clifford Chance LLP

CMS Cameron McKenna Nabarro Olswang LLP

Coffin Club Colchester

Colin McLauchlan

Cwmni Buddiannau Cymunedol Cyfraith Gyffredin

Connect2Law Ltd

Tîm Ymchwil ConnecteDNA

CoramBAAF

Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig

Cymdeithas y Cyfreithwyr Apeliadau Troseddol

Swyddfa Apeliadau Troseddol

Gwasanaeth Erlyn y Goron

D M Chambers

David Daley

David Glass

David Hodson

David Madgwick

David Pollard

Dean Kingham

Dee Quealy

Dermot Leeper

Diane Fowley

Y Bartneriaeth Plant Anabl

Dot Wood

Dr Alan Brown a Dr Katherine Wade, Prifysgolion Glasgow a Chaerlŷr

Dr Andrew Hayward, Prifysgol Durham

Dr Charlotte Hursey

Dr Connal Parsley, Prifysgol Caint

Dr Emma Laurie, Prifysgol Southampton

Dr Emma Milne, Prifysgol Durham

Dr Jamie Grace, Prifysgol Sheffield Hallam

Dr Joe Purshouse, Prifysgol East Anglia

Dr Julia Brophy

Dr Kyriaki Noussia, Prifysgol Exeter

Dr Laura Downey, Dr Rachael Dickson a'r Athro Muireann Quigley, Prifysgol Birmingham

Dr Lawrence McNamara, Prifysgol Efrog

Dr Lisa Rodgers, Prifysgol Caerlŷr

Dr Lucy Welsh, Prifysgol Sussex

Dr M Gorar, Prifysgol Hertfordshire

Dr Marion Oswald, Prifysgol Northumbria

Dr Mark Dsouza, UCL

Dr Nataly Papadopoulou, Prifysgol Caerlŷr

Dr Neil Ogg

Dr Nora Ni Loideain, Ysgol Uwchastudiaethau, Prifysgol Llundain

Dr Oliver Butler, Coleg Wadham, Prifysgol Rhydychen

Dr Philip Bremner, Dr Craig Lind a Dr Maria Moscati, Prifysgol Sussex

Dr Rajnaara Akhtar a'r Athro Rebecca Probert, Prifysgol De Montfort a Phrifysgol Exeter

Dr Samantha Davey, Prifysgol Essex

Dr Sharon Thompson, Prifysgol Caerdydd

Dr Stuart Calimport

Dr Sue Chadwick

Dr Tanya Palmer, Prifysgol Sussex

Dr Tracy Elliott a Dr Daniel Bansal

Dr W Kuan Hon

Easy Online Divorce

Edita Ficzová

Edwin Rothwell

Elaine Ravenhall

Eleanor Wilson

Elena Urso, Università di Firenze

Elizabeth Muirhead

Emily Carroll, Prifysgol Birmingham

Emma German

Cymdeithas y Cyfreithwyr Cyflogaeth

England & Derbyshire LLP

Asiantaeth yr Amgylchedd

Arwyr y Llys Teulu

Y Cyngor Cyfiawnder Teulu

Cyfraith Teulu mewn Partneriaeth

Pwyllgor Cyfraith y Marchnadoedd Ariannol

Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol

Frances Kelly

Frances Kelly

Panel Cynghori Twyll

Freshfields Bruckhaus Derringer LLP

Gavin Oldham

Gaye Rees

Gillian Switalski

Graham Redman

Graham Smith

Guy Fetherstonhaugh KC

Hausfeld & Co LLP

Helen Carr, Caroline Hunter ac Ed Kirton-Darling

Helen Coverdale, PSL Restructuring & Insolvency, LexisNexis UK

Helen Lofthouse

Herbert Smith Freehills

Cofrestrfa Dir EF

Holly Greenwood, Dennis Eady a Julie Price, Prifysgol Caerdydd

Holman Fenwick Willan LLP

Cynghrair Howard dros Ddiwygio Cosbi

Hugh Beale

Hugh James

Iain Wightwick

Ian Williams, UCL

ICAEW

Ijeoma Omambala KC, Rebecca Tuck KC, Eleena Misra, Nadia Motraghi, Anna Whitehouse a Maternity Action

Imogen Goold, Coleg St Anne, Prifysgol Rhydychen

Imogen Jones, Prifysgol Leeds

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Inside Justice

Cymdeithas y Cyfreithwyr Ansolfedd

Sefydliad a Chyfadran Actiwariaid (IFoA) a Gweithgor Cynaliadwyedd yr Ymgynghorwyr Buddsoddi (ICSWG)

Y Sefydliad Rheoli Cymynroddion

Interactive Investor

Y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Cymrodeddu Ymddiriedolaethau

Irwin Mitchell LLP

Jack Anderson, Neil Allen, Margaret Flynn, Yr Athro Paul Kingston, Pete Morgan, Yr Athro Jonathan Parker, Bridget Penhale, Yr Athro Michael Preston-Shoot, Katie Scott a Carolyn Taylor

Jacquie Leach

Jamie Barnes

Jane Christmas

Jane Evatt

Jane Karthaus

Jennie Graham

Jennifer Cobbe, Prifysgol Caergrawnt

Jessica Giles, Y Brifysgol Agored

Joanna Janeczko

John Nightingale

John Stebbing

Joyce Whittaker

Julia Smithers Excell

Just for Kids Law

JUSTICE

Y Pwyllgor Cyfiawnder

Karen Maxwell, Clare Ambrose a Michael Collett KC

Kathryn Harvey

Keith Bush

Kieron Duggan

Kit Fotheringham a Helen Smith, Prifysgol Bryste

Klaus Reichert

LawWorks

Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol

Leigh Day

Leonora Onaran, Prifysgol Southampton

Lesley Bainbridge

Liliana Pantoja

Linklaters LLP

Clinig y Gyfraith Lerpwl, Prifysgol Lerpwl

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol

Arglwydd Hamblen

Arglwydd Ustus Lewis

Lynn Seymour

M Jennings

Marika Lemos

Mark Thompson

Mark Wright

Martin Dixon, Coleg Queens, Prifysgol Caergrawnt

Martin James Coplestone

Mary Gorton Peace

Y Gynghrair Ryng-ddisgyblaethol ar gyfer Plant

Methoria UK

Michael Black KC

Michael Devaney

Mishcon de Reya LLP

Mr Paul Jarvis

Ms Samantha Bourton

Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol

Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol

Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

Natural England

Nicholas Gray

Nick Burton

Nick Fillipou

Canolfan Cyngor Cyfreithiol Ysgol y Gyfraith Nottingham

Patrick Ford

Paul Goldspring

Paul Walker

Peter Beckett FRICS

Peter Howes

Peter Martin

Peter Vaughan

Peter Wells

Philip Crawford

Pinsent Masons LLP

PIP Ltd

Cymdeithas y Bar Cynllunio ac Amgylchedd

Practical Law (Thomson Reuters)

Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus y Llywydd

Privacy International

Yr Athro Alex Sharpe, Prifysgol Warwick

Yr Athro Alex Stevens, Ms Niamh Eastwood a Ms Kirstie Douse

Yr Athro Anne Barlow a Dr Jan Ewing, Prifysgol Exeter

Yr Athro Christopher Hodges a Charmaine Cole, Y Ganolfan Astudiaethau Cyfreithiol-Gymdeithasol, Prifysgol Rhydychen

Yr Athro Colin T Reid, Prifysgol Dundee

Yr Athro Duncan Fairgrieve

Yr Athro Heather Flowe, Prifysgol Birmingham

Yr Athro Hse-Yu (Iris) Chiu a'r Athro Anthony Gillespie, UCL

Yr Athro Irene-Marie Esser, Yr Athro Andrew Johnston, Yr Athro Joan Loughrey, Yr Athro Iain MacNeil, Dr Roseanne Russell, a'r Athro Charlotte Villiers

Yr Athro Jeremy Horder

Yr Athro Karen Yeung, Ysgol y Gyfraith Birmingham ac Ysgol y Gwyddorau Cyfrifiadurol

Yr Athro Lynne Frostick

Yr Athro Mavis Maclean, Prifysgol Rhydychen

Yr Athro Michael Haley, Prifysgol Keele

Yr Athro Rebecca Williams, Coleg Pembroke, Prifysgol Rhydychen

Yr Athro Robert Lee, Prifysgol Birmingham

Yr Athro Ronnie MacKay a David Hughes

Yr Athro Russell Sandberg, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Stavros Brekoulakis

Yr Athro Steven Murdoch, UCL

Yr Athro Sue Bright

Yr Athro Vanessa Munro, Prifysgol Warwick

Cymdeithas y Bar Eiddo

Propertymark

Protect

Prosiect Cyfraith Gyhoeddus

Raid Abu-Manneh, Rachael O'Grady a Lisa Dubot

Resolution

Rhys Taylor

Richard Calnan

Richard Harkness, PSL Property, LexisNexis UK

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Y Gwir Anrh Hon Harriet Harman AS

Y Gwir Anrh Michael Ellis KC AS

Rupert Barnes

Russell Hewitson, Prifysgol Northumbria

Ruth Tobbell

Ruth Whitworth

Safer Renting

Samantha Martin

Sangita Ladwa

Sarah Watkins

Y Swyddfa Twyll Difrifol

Sir Robert McAlpine Ltd

Y Gymdeithas Cyfrifiaduron a Chyfraith

Awdurdod Afonydd Gwlad yr Haf

Sophie Carter

Canolfan Cyngor Cyfreithiol Eglwys St James

STEP

Stephanie Challinor

Stephanie Pywell

Stephen Lewis

Stephen Lounton

Sue McAllister

Sue Pheasey

Sue Stapely

Susan Gill

Susan Wooley

Ffederasiwn Eiddo Prydain

Sefydliad Siartredig y Newyddiadurwyr

Y Gymdeithas Trawsgludo

Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

Stâd y Goron

Cyngor Cyffredinol y Bar yng Nghymru a Lloegr (Cyngor y Bar)

Cymdeithas y Gyfraith

Cymdeithas Cymrodeddwyr Morol Llundain

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Y Gymdeithas Cyfreitha Eiddo

Ombwdsmon Eiddo

Y Gwir Anrh Syr James Munby, Ei Anrhydedd Clifford Bellamy, Lucy Reed, Dr Julie Doughty a Louise Tickle

Cymdeithas y Trawsgludwyr Trwyddedig

Cymdeithas Cyfraith Gwmnïau'r Deyrnas Unedig

Theo Huckle KC

Thom Brooks, Prifysgol Durham

Timothy Foden

Tobias Haynes

Y Mudiad Cyfiawnder Masnach

Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)

Tulip Siddiq AS, Christine Jardine AS, Caroline Lucas AS, Philippa Whitford AS a Claire Hanna AS

Twindig Limited

Canolfan Cyfraith Anifeiliaid y DU

Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU

Prifysgol Gorllewin Lloegr

Unlock

Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru

Pwyllgor Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol Wessex

Cymdeithas Preswylwyr West Durrington

West Solent Solar Co-operative Limited

Wilson

Withers LLP

Wrigleys Solicitors LLP

Ying Liew

Zaafir Hasan